UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20

HC 566

UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

**Gorchmynnwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin**

14th Gorffennaf

HC 566

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2020-21, y ddogfen Gwariant Cyhoeddus: Dadansoddiadau Ystadegol 2020, ac Amcangyfrifon y Cyflenwad 2019-20: Gwybodaeth Gyllidebol Atodol, yn cyflwyno alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2019-20 a'r gwariant a gynllunnir ar gyfer 2020-21.

**© Hawlfraint y Goron 2020**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu gan fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications a thrwy ein gwefan yn www.walesoffice.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn correspondence@ukgovwales.gov.uk

ISBN 978-1-5286-2020-8

CCS0420480408 07/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


**Pennod 1 – Yr Adroddiad Perfformiad** 1

Rhagair y Gweinidog 1

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr 3

Trosolwg o'r Adran 4

**Pennod 2 – Yr Adroddiad Atebolrwydd** 22

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 22

Adroddiad y Cyfarwyddwr 22

Datganiad am gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 24

Y Datganiad Llywodraethu 26

Adroddiad am Daliadau a Staff 35

Adroddiad Taliadau 35

Adroddiad Staff 48

Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio 55

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin 64

**Pennod 3 – Datganiadau Ariannol** 69

**Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** 91

# 1 Yr Adroddiad Perfformiad

## Rhagair y Gweinidog

Braint i mi yw gwasanaethu fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ers mis Rhagfyr 2019, gan arwain yr adran wrth iddi barhau i weithredu gweledigaeth Llywodraeth y DU dros Gymru. Ni fu erioed amser mor arwyddocaol i arwain un o Swyddfeydd Tiriogaethol Llywodraeth Prydain, gydag ymrwymiad y Llywodraeth i wastatu'r DU a chryfhau'r Undeb yn ategu popeth yr ydym yn ei wneud. Mae fy nhîm yn gweithio'n agos ag adrannau eraill Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod Cymru wrth galon polisïau'r Llywodraeth, a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ar hyd a lled Cymru, fel bod materion yng Nghymru ar flaen y gad ym meddyliau pawb.

Byddai'n anodd peidio â siarad am y cyfnod hwn heb ymdrin yn gyntaf â phandemig COVID-19 sydd wedi parlysu gwledydd ar draws y byd. Mae fy Swyddfa i wedi gweithredu'n gyflym a chyda phenderfyniad i aildrefnu a chwarae ein rhan yn ymateb y Llywodraeth i ymdrin â Covid, gan atal gwaith ar beth bynnag y gallwn i drefnu ein hadnoddau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y frwydr yn erbyn Covid-19.

Gwnaethom gydnabod yn syth bod graddau'r heriau iechyd cyhoeddus a'r heriau economaidd angen ymateb drwy'r DU. Rydym wedi sicrhau bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi gweithio mor agos ag sy'n bosibl i arbed bywydau ac atal lledaeniad y feirws. Mae fy swyddfa wedi bod yn ganolog i'r trafodaethau hynny ac mae'r ddwy lywodraeth wedi ffurfio perthynas waith cynhyrchiol dros ben.

Rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod Cymru yn derbyn pecynnau cymorth economaidd digynsail y mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi ynddyn nhw mewn modd teg a chyflawn er mwyn helpu swyddi a busnesau drwy'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws, y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy Gyfnod y Coronafeirws a'r Cynllun Gohirio TAW ymysg llawer o rai eraill. Mae hyn yn ychwanegol at bron i £2.3 biliwn mewn cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ymladd Covid.

Wrth inni symud tuag at adferiad, mae ein gweledigaeth i Gymru yn fwy uchelgeisiol nag erioed. Mae Cymru yn wynebu byd o gyfleoedd newydd wrth inni symud yn nes at ddiwedd y cyfnod pontio yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE. Mae trafodaethau masnach ar y gweill gydag amrediad o wledydd drwy'r byd, gan gynnwys yr Unol Daleithiau a Siapan, a chyda'r UE ei hun. Rydym wedi sicrhau, a byddwn yn parhau i sicrhau, bod buddiannau busnesau Cymru yn cael eu cynrychioli yn llawn yn y trafodaethau hynny, fel bod bargeinion masnach yn dod â budd i Gymru a'r DU gyfan.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf daeth buddsoddiad uniongyrchol sylweddol i Gymru. Yng nghyllideb 2020, gwelwyd y cynnydd mwyaf blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cyllid i Gymru mewn degawd, wedi'i gyfuno gyda chyllid ychwanegol o £650 miliwn a

ddarparwyd yn Adolygiad Gwariant 2019. Bydd cyflwyno band eang gigadid gwerth £5 biliwn hefyd yn fudd anghymesur inni yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd anoddaf i'w cyrraedd. Mae hyn yn ychwanegol at y £5miliwn ar gyfer cymunedau cysylltiedig, £16 miliwn ar gyfer Ffibr Llawn Lleol yng Nghymru a chyfran Cymru o'r £400 miliwn ar gyfer ymchwil, isadeiledd a chyfarpar o safon fyd-eang drwy'r DU.

Yn ystod y flwyddyn, mae llifogydd wedi achosi dinistr ar draws sawl rhan o Gymru. Mae fy swyddfa wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol er mwyn asesu'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddiogelu cymunedau, isadeiledd ac amgylchedd drwy asesu'r risg ehangach o dir yn llithro ar gyn-safleoedd tomenni glo. Fel rhan o'r gwaith hwn, ym mis Mawrth gwnaethom gyhoeddi llinell gymorth rhadffôn newydd a ddarparwyd gan yr Awdurdod Glo i alluogi aelodau o'r cyhoedd adrodd am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â thomenni glo.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld ein hadran hefyd yn parhau â'i ffocws ar ddatblygiad rhanbarthol yng Nghymru. Ym mis Tachwedd, arwyddodd fy rhagflaenydd Bargen Twf Gogledd Cymru ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, gan sicrhau £120 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru i mewn i'r rhanbarth. Yng nghyllideb 2020, roeddwn yn falch o gadarnhau £55 miliwn mewn cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru. Yn awr, mae £800 miliwn o fuddsoddiad yn ymrwymedig mewn bargeinion dinasoedd a thwf ar gyfer pob rhanbarth o Gymru.

Rydw i'n dymuno i Lywodraeth y DU fod yn fwy gweladwy yng Nghymru, fel bod pobl yn gallu gweld buddion ymarferol y DU a sut mae'n effeithio ar eu bywydau. Mae canolfan newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd – Tŷ Wiliam Morgan – yn rhan allweddol o'r uchelgais hwn, ac roeddwn i wrth fy modd yn 'derbyn allweddi'r' adeilad newydd ym mis Rhagfyr. Edrychaf ymlaen at agoriad swyddogol y Ganolfan yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Drwy'r flwyddyn, mae fy Swyddfa wedi ymgysylltu yn agos â'n rhanddeiliaid; rydw i wedi cwrdd â chynrychiolwyr o bob sector ac o bob cornel o Gymru. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau ag Airbus a Toyota yng Ngogledd-orllewin Cymru, y Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn Ne-ddwyrain Cymru a Chriw Bad Achub Glanyfferi yn Ne-orllewin Cymru. Buom yn llywyddu rhai digwyddiadau ardderchog ar gyfer Wythnos Cymru yn Llundain yn 2020, a byddwn yn parhau i gynnal byrddau crwn rheolaidd gyda rhanddeiliaid wrth inni symud i gyfnod adferiad COVID-19.

Mae heriau economaidd sylweddol o'n blaenau ni yn 2020-21. Rydw i'n gwybod ei fod yn her y gallwn ni ei goresgyn gyda'r un dycnwch, egni a phenderfyniad ag yr ydym wedi'i ddangos yn ystod hanner cyntaf eleni. Bu'n flwyddyn lwyddiannus a phrysur iawn yn Swyddfa Cymru a hoffwn ddiolch i'n swyddogion yn yr adran am eu hymdrechion a'u huchelgeisiau parhaus ar draws ein portffolio. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'm tîm Gweinidogol, David T C Davies AS, y Farwnes Bloomfield a Sarah Atherton AS.

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

O'r holl gyflwyniadau y gofynnwyd imi eu hysgrifennu i adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd, nid wyf erioed wedi ysgrifennu un mewn amgylchiadau mor hynod. Mae'r gweithgarwch a'r cyflawniadau a ddisgrifir yn y tudalennau sy'n dilyn – sy'n cynnwys bargeinion dinesig a thwf, Porth y Gorllewin, masnach ryngwladol ac ymadael â'r UE i enwi dim ond ychydig – yn teimlo fel oes yn ôl wrth inni wneud ein rhan i fynd i'r afael â'r argyfwng COVID-19.

Mae adroddiad eleni'n rhoi cyfrif da o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn 2019-20 ond mae hefyd yn dangos sut yr aethom o gwmpas ein busnes sydd wedi sicrhau ein bod mewn sefyllfa mor gref i ddelio â'r heriau sy'n ein hwyneb yn awr. Mae'r buddsoddiad a wnaed gennym mewn 'gweithio clyfar', gan gynnwys technoleg, wedi golygu bod y newid i weithio o gartref i bob aelod o staff yr adran wedi bod yn gymharol ddidrafferth. Mae'r partneriaethau sydd wedi'u meithrin gennym ag ystod eang o randdeiliaid dros y blynyddoedd wedi ein galluogi i weithredu fel pont rhwng Cymru a San Steffan, gan sicrhau bod buddiannau Cymru yn flaenllaw ym meddyliau pawb wrth i'r Llywodraeth ddatblygu ei hymatebion i COVID-19 a bod ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu o ddatblygiadau. Yn yr un modd, ar adeg pan fo'r angen i'r ddwy lywodraeth gydweithio yn bwysicach nag erioed i Gymru, mae ein hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru wedi bod ar lefelau na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Ond efallai mai'r rheswm pwysicaf pam ein bod wedi gallu ymateb mor gyflym ac effeithiol yw am fod y staff yma yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mor barod i addasu, mor broffesiynol ac mor ymroddgar. Maent wedi gwneud popeth y gofynnwyd iddynt heb gwyno a heb feddwl ddwywaith.

Maent wedi bod yn barod i fynd un cam ymhellach bob amser er mwyn amddiffyn buddiannau Cymru. Yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf byddwn yn symud mwy a mwy oddi wrth reoli'r argyfwng presennol ac yn rhoi cynllun ar waith i sicrhau adferiad Cymru. Nid oes yr un tîm y gallwn ymddiried mwy ynddo i wneud y dasg hon na'r un sydd gen i yma.

**Glynne Jones CBE**
**Cyfarwyddwr**

# Trosolwg o'r Adran

## Mae Trosolwg Strategol yr Adran yn amlinellu ein gwaith dan dri amcan:

Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ('y Swyddfa') yn cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hybu buddiannau Cymru mewn Teyrnas Unedig gref. Ni yw wyneb Llywodraeth y DU yng Nghymru a llais Cymru yn Whitehall.

Ein nod parhaus yw cefnogi undeb y Deyrnas Unedig.

Ein tri phrif amcan wrth gefnogi'r blaenoriaethau hyn yw:

### *Amcan 1 – Economi Gryfach a Phrydain Fyd-eang: cefnogi economi gref yng Nghymru sydd â'i golygon tuag allan*

***Sicrhau bod polisi masnach a buddsoddi tramor y DU yn cyflawni dros Gymru***

***Cyflawni buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith***

Mae sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu diwallu yn ystod negodiadau masnach wedi bod yn un o flaenoriaethau'r Swyddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cynnwys gwaith manwl ac eang ar ddatblygu mandad ar gyfer negodiadau â'r Undeb Ewropeaidd (UE), yr Unol Daleithiau (UDA), Awstralia, Seland Newydd, Japan, Canada, dod yn aelod o Bartneriaeth y Môr Tawel Gynhwysfawr a Blaengar, ac eraill.

Mae'r Swyddfa wedi gweithio hefyd ar draws Whitehall i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried wrth ddiwygio'r Tariffau Diwrnod Cyntaf heb Gytundeb (i ddechrau ym mis Mawrth 2019 ac yn ystod y broses ddiwygio yn haf 2019).

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru[1] wedi cwrdd yn gyson ag uwch randdeiliaid o wahanol sectorau yng Nghymru i ystyried effaith polisi masnach Llywodraeth y DU. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd â'r undebau amaethyddol, sefydliadau o'r sector busnes a'r diwydiant ceir.

Mae hyrwyddo masnach wedi bod yn rhan bwysig o waith yr Adran yn ystod y 12 mis diwethaf. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf, lansiodd y Swyddfa "Bortffolio Cymru" yn MIPIM, yr ŵyl eiddo a buddsoddi mwyaf yn y byd, a gynhaliwyd yn Cannes ym mis Mawrth 2019. Roedd y portffolio hwn, a ddatblygwyd ar y cyd â'r Adran Masnach Ryngwladol (DIT) a Llywodraeth Cymru, yn rhoi sylw i chwe phrosiect buddsoddi cyfalaf yn yr ŵyl eiddo a buddsoddi fwyaf yn y byd. Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol ginio dilynol yn yr Old Bailey. Rhan o'r digwyddiad hwn oedd rhwydweithio wedi'i dargedu ag arweinyddion a buddsoddwyr sydd â hanes blaenorol mewn buddsoddiadau tebyg. Roeddem wedi bod yn gweithio â phartïon

1 Mae'r cyfeiriadau sydd yn yr adran hon at *Ysgrifennydd Gwladol Cymru* yn cyfeirio at y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns hyd at 6 Tachwedd 2019 ac at y Gwir Anrhydeddus Simon Hart o 16 Rhagfyr 2019 ymlaen. Roedd y swydd yn wag yn ystod Etholiad Cyffredinol 2019.

â diddordeb i ychwanegu prosiectau at y portffolio cyn MIPIM 2020 ond cafodd y digwyddiad ei ohirio oherwydd COVID-19.

Ym mis Medi, bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymweld ag India, lle cyfarfu â TATA Steel i drafod dyfodol cynhyrchu dur a phwysigrwydd y sector yng Nghymru. Ym mis Tachwedd, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynrychioli Llywodraeth y DU yn Fforwm Byd-eang y G20 ar Bwyllgor y Gweinidogion ar Ormodedd o Ddur yn Tokyo i drafod y cynnydd a wnaed hyd yma i leihau gormodedd o ddur.

***Sicrhau buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith***

Rôl y Swyddfa o safbwynt buddsoddi mewn seilwaith yw helpu adrannau Whitehall i ddeall yr anghenion yng Nghymru a sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth briodol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd rheilffyrdd yn amlwg iawn yng ngwaith y Swyddfa. Mae hyn yn rhannol am fod rhai agweddau ar y rheilffyrdd wedi'u cadw'n ôl ac eraill wedi'u datganoli, sy'n golygu bod rôl y Swyddfa fel hwylusydd rhwng Llywodraeth Cymru ac adrannau Whitehall yn un holl bwysig.

Ym mis Gorffennaf, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddiad ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y byddai hyd at £58 miliwn ar gael i uwchraddio Gorsaf Caerdydd Canolog. Bydd hyn yn lleddfu gorlenwi a thagfeydd yn yr orsaf yn ystod oriau brig, yn hybu adfywio ac yn galluogi trenau hwy gyda mwy o seddau i wasanaethu'r brifddinas. Cyhoeddwyd hefyd y byddai'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer gorsaf Parcffordd Gorllewin Cymru newydd, ger Abertawe, i hybu cysylltedd a chapasiti ar gyfer teithwyr ledled de a gorllewin Cymru. Mae hyn yn adeiladu ar astudiaeth gwmpasu gan yr Athro Stuart Cole ac a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Adran Drafnidiaeth (DFT) yn awr yn datblygu'r achos busnes hwn ochr yn ochr ag ystod o welliannau i'r rheilffyrdd yng Nghymru.

Ym mis Awst, cynhaliodd y Swyddfa weithdai i awdurdodau lleol yn Llandudno, Caerfyrddin a Chaerdydd i egluro cynllun Mynediad i Bawb yr Adran Drafnidiaeth sydd â'r nod o wella hygyrchedd gorsafoedd trenau. Ym mis Chwefror, sicrhaodd Castell-nedd £500,000 ar gyfer dau lifft newydd, gyda Grangetown, Llanilltud Fawr a Phont-y-pŵl a New Inn i gyd yn cael £1 miliwn ar gyfer pedwar lifft newydd bob un.

Trosglwyddwyd Llinellau Craidd y Cymoedd o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth, gan alluogi Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â datblygiad Metro De Cymru.

Yn ychwanegol ar y rheilffyrdd, cyhoeddodd y Swyddfa ddatblygiad Ffordd Osgoi Pant Llanymynech ar yr A483 yn y Gyllideb ym mis Mawrth. Yn y Gyllideb hefyd cyhoeddwyd amrywiaeth o welliannau i seilwaith Cymru, gan gynnwys cyflwyno band eang hyd at un gigabit i'r ardaloedd anoddaf eu cyrraedd a chynlluniau i gyflwyno Rhwydwaith Gwledig a Rennir ar gyfer ffonau symudol.

***Hybu twf economaidd ledled Cymru***

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Swyddfa yn cydweithio'n agos ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU i sicrhau bod arbenigedd Cymru'n cael ei chydnabod a bod cyllid ar gael i brosiectau cymwys. Er enghraifft, ym mis Awst, cafodd Caerdydd ei dewis fel cartref i un o bum

rhwydwaith ymchwil trafnidiaeth newydd ledled y DU gyda'r dasg o ganfod datrysiadau i lygredd trafnidiaeth. Bydd y prosiect hwn, o dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, yn dwyn ynghyd arbenigwyr o'r meysydd academaidd a diwydiannol gan gynnwys Prifysgol Bryste ac Aston Martin i ganfod heriau datgarboneiddio.

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod cyfran gwerth £1.4 miliwn wedi'i ddyfarnu i Deregallera Ltd a Tri-Wall Europe o Her Batri Faraday Llywodraeth y DU i ddatblygu'r technolegau batri diweddaraf. Drwy ddod â phrif academyddion a busnesau y byd at ei gilydd i gyflymu'r ymchwil sydd ei hangen i ddatblygu'r technolegau batri ceir diweddaraf, mae Her Batri Faraday yn rhan hanfodol o darged y DU i sicrhau economi allyriadau sero net.

Mae'r symudiad cyfredol tuag at drydaneiddio yn dod â heriau a chyfleoedd yn ei sgil i ddiwydiant ceir Cymru, ac mae'r Swyddfa wedi bod yn cydweithio'n agos â'r diwydiant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i wneud y gorau o'r cyfleoedd. Ym mis Medi, cyhoeddodd INEOS Automotive y bydd yn adeiladu hyd at 25,000 o'i gerbydau Grenadier SUV y flwyddyn yn safle Brocastle ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Disgwylir i'r buddsoddiad greu tua 200 o swyddi yn y lle cyntaf, gan gynyddu i tua 500 yn y tymor hir fel rhan o ymdrech INEOS sy'n werth £600 miliwn i greu eu model 4x4 diweddaraf. Mae INEOS wedi cael cyllid gan Lywodraeth y DU fel rhan o gystadleuaeth i ymchwilio ac i ddatblygu technolegau sy'n cyflymu'r symud tuag at gerbydau dim allyriadau. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio â'r cwmni hefyd i ddarparu rhagor o gymorth tuag at ganlyniadau'r gwaith hwnnw.

Bu'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cyd-noddi Tasglu i helpu gweithwyr, cymunedau a chwmnïau sydd wedi'u heffeithio yn sgil cau gwaith Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Tasglu wedi helpu i sicrhau'r buddsoddiad gan INEOS, yn ogystal â darparu cymorth i unigolion i fanteisio ar hyfforddiant a chyfleoedd am waith. Wrth symud i gam nesaf y datblygiad, bydd y Tasglu'n edrych ar yr ardal fel rhan o ddull sy'n seiliedig ar ranbarth gyda Phen-y-bont ar Ogwr ar y blaen ac yn ganolog. Bydd hefyd yn parhau i weithio â Ford i ganfod a sicrhau'r dyfodol gorau i'r safle.

Mae'r diwydiant dur yn wynebu amgylchiadau anodd yn fyd-eang unwaith eto, ac mae'r Swyddfa'n gweithio'n agos â'r diwydiant, Llywodraeth Cymru, yr Undebau a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i sicrhau dyfodol cynaliadwy tymor hir i'r sector yng Nghymru. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cwrdd ag uwch gynrychiolwyr o'r sector dur ar sawl achlysur i drafod y prif heriau sy'n ei wynebu. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd ag uwch gynrychiolwyr Tata ym Mumbai i drafod dyfodol eu hôl troed yng Nghymru.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynrychioli Llywodraeth y DU yn Fforwm Byd-eang y G20 ar Bwyllgor y Gweinidogion ar Ormodedd o Ddur yn Tokyo i drafod y cynnydd hyd yma ar leihau gormodedd o ddur. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bresennol hefyd yng Nghyngor Dur y DU i drafod sut y gall y Llywodraeth a diwydiant weithio â'i gilydd i sicrhau dyfodol cynaliadwy tymor hir a chyfrannu at ddatgarboneiddio a chyflawni uchelgeisiau'r Llywodraeth.

***Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol yng Nghymru***

Mae'r Swyddfa'n parhau i ymgysylltu ar bob lefel â phob un o'r bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys monitro sut mae'r bargeinion yn datblygu drwy gyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogol a chyd-gyfarfodydd â gweinidogion yn ôl yr angen.

Mae Bwrdd Gweithredu Bargen Dinesig a Thwf Cymru, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan uwch swyddogion yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cwrdd yn chwarterol i adolygu risgiau ac i fesur cynnydd pob bargen yn erbyn cerrig milltir perfformiad.

Yn achos Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) mae'r Swyddfa'n cynnal adolygiadau bob 6 mis ac mae cydgytundeb â Llywodraeth Cymru ar ryddhau cyllid yn flynyddol. Rydym hefyd wedi gweithio â CCR a MHCLG i baratoi ar gyfer yr adolygiad Gateway pum mlynedd gyntaf a fydd yn cyflwyno'r canfyddiadau i weinidogion ym mis Mawrth 2021.

Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd cabinet rhanbarthol y CCR gyfres o brosiectau a oedd wedi'u datblygu drwy ei Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys ymestyn y cynllun i raddedigion a datblygiad a chyllid i helpu i greu Parc Gwyddorau Bywyd, Cyffordd 32, Coryton/ Lower Taff Valley.

Mae'r Swyddfa a Llywodraeth Cymru wedi datgan cefnogaeth lawn i Fargen Dinas Ranbarth Bae Abertawe yn y gwaith sy'n cael ei wneud i weithredu argymhellion yr Adolygiad Annibynnol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd i fonitro eu cynnydd ac mae gweithdai ar y cyd wedi'u trefnu i gytuno ar y prosesau llywodraethu a sicrwydd sydd angen eu rhoi ar waith. Rydym wedi cydweithio'n agos â'r rhanbarth i sicrhau bod £18m yn cael ei ryddhau'n amodol ym mis Gorffennaf 2019 ar gyfer prosiectau yr Ardal Ddigidol ac Yr Egin. Mae prosiect arall – Ardal Forol Doc Penfro – wedi'i gyflwyno i'r ddwy lywodraeth i gael cymeradwyaeth, ac mae'r mater yn awr yn cael ei ystyried.

Ym mis Tachwedd 2019 llofnododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gweinidog o Lywodraeth Cymru, ac arweinyddion yr Awdurdodau Lleol gytundeb ar Benawdau'r Telerau ar gyfer Bargen Twf y Gogledd (NWGD). Roedd y cytundeb yn nodi'r rhaglenni a gaiff eu hariannu a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y fargen.

Mae hefyd NWGD wedi penodi Cyfarwyddwr Rhaglen a fydd yn gyfrifol am arwain gwaith y Fargen Twf. Byddwn yn parhau i weithio tuag at ddatblygu'r Cytundeb Diwrnod Olaf erbyn diwedd 2020.

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth £55 miliwn ar gyfer Bargen Twf y Canolbarth, sy'n golygu bod Cymru gyfan yn awr yn dod o fewn cymorth ariannol drwy'r mecanwaith Bargen Dinesig a Thwf. Bydd yr Adran yn parhau i gydweithio'n agos â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i gynhyrchu dogfen Penawdau'r Telerau erbyn diwedd 2020.

## *Amcan 2 – Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd*

***Sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn yng nghynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer pob senario ymadael â'r UE a phartneriaethau economaidd y dyfodol***

Mae'r Swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru i sicrhau llais cryf yng nghanol y Llywodraeth i fusnesau, prifysgolion, y trydydd sector, undebau amaethyddol, awdurdodau lleol Cymru, ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Rydym wedi gweithio'n agos ag adrannau eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru yn cyfrannu at waith y Llywodraeth ar ymadael â'r UE a'i chynlluniau ar gyfer Cymru ffyniannus o fewn Teyrnas Unedig gref.

Mae Panel Gweithredu Arbenigol ar Ymadael â'r UE a Bwrdd Cynghori ar yr Economi'r Ysgrifennydd Gwladol wedi parhau i gwrdd drwy gydol y flwyddyn. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi llwyfan gwerthfawr i'r Ysgrifennydd Gwladol i ymgysylltu ag aelodau ar y gwaith sy'n arwain at ymadawiad y DU ar 31 Ionawr 2020. Mae ymgysylltiad agos y Swyddfa â rhanddeiliaid wedi bod yn allweddol eleni i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn ar adegau allweddol, yn dilyn penodiad y Prif Weinidog a'r Etholiad Cyffredinol. Mae'r cyfarfodydd hefyd wedi golygu bod barn rhanddeiliaid o Gymru'n cyfrannu'n uniongyrchol at brosesau penderfynu'r Llywodraeth.

Mae'r Swyddfa wedi chwarae rôl allweddol i sicrhau bod paratoadau Llywodraeth y DU ar gyfer y sefyllfa bosibl o Ddim Cytundeb ddiwedd mis Hydref yn ystyried buddiannau ac ystyriaethau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio â chydweithwyr yn Whitehall yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru ar baratoadau ymarferol a oedd yn edrych ar y gwahanol senarios posibl. Roedd y rhain yn systemau profi gwerthfawr dros ben ac roedd rôl swyddogion Swyddfa Cymru yn hanfodol i gael y sicrwydd angenrheidiol y byddai Cymru'n cael ei chynnwys mewn trefniadau wrth gefn a fyddai'n codi os na cheid Cytundeb.

Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bresennol mewn cyfarfodydd o Bwyllgor Gweithrediadau Ymadael â'r UE (XO) a oedd yn golygu bod gan yr adran rôl allweddol o ran ffurfio sut y byddai Llywodraeth y DU yn ymafael â'r UE gan roi llais i Gymru yn y fforwm penderfynu allweddol hwn i Weinidogion. Hefyd, roedd y Swyddfa'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith a oedd yn cael ei wneud ar baratoadau ar gyfer y ffin yn ogystal â'r effeithiau posibl yn lleol os na fyddai Cytundeb. Yn sgil y gwaith hanfodol hwn, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru rhoddwyd blaenoriaeth i effeithiau posibl llif ar y ffin yn achos porthladd Caergybi, sy'n strategol bwysig i Gymru a hefyd i'r DU gyfan. Bu'r Swyddfa'n cydweithio ag adrannau eraill y llywodraeth i sicrhau cynlluniau wrth gefn mewn achos o Ddim Cytundeb a fyddai'n gweithio i Gymru. Roedd arbenigedd y Swyddfa o ran deall y cysylltiadau rhwng materion datganoledig ac sydd heb eu datganoli yng Nghymru wedi sicrhau y byddai cynlluniau'n effeithiol pe byddai eu hangen ar gyfer Cymru a gweddill y DU.

**Sicrhau bod deddfwriaeth ar ymadael â'r UE yn adlewyrchu buddiannau Cymru a'r DU**

Mae'r Swyddfa wedi cydweithio'n agos â'r Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a Swyddfa'r Cabinet ar ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod datblygiad, a hynt Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) drwy'r Senedd (Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 erbyn hyn). Mae'r Ddeddf wedi gweithredu'r Cytundeb Ymadael fel y cytunwyd arno rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Drwy'r ymgysylltu hwn mae'r Llywodraeth wedi ymdrechu i ddod i gytundeb â Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar y darpariaethau yn y Bil sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig.

Cafodd nifer o newidiadau eu gwneud i roi sylw i bryderon a godwyd gan y gweinyddiaethau datganoledig yn ystod trafodaethau rhynglywodraethol manwl cyn cyflwyno'r Bil gerbron y Senedd. Fodd bynnag, ar 21 Ionawr 2020 gwrthododd y Cynulliad[2] gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil, fel y gwnaeth Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Llywodraeth yn parhau'n gwbl ymroddedig i gonfensiwn Sewel a bydd y Swyddfa'n parhau i gydweithio'n agos ag adrannau eraill llywodraeth y DU, ac â Llywodraeth Cymru, i sicrhau cydsyniad y Cynulliad i filiau seneddol sy'n deddfu o fewn cymhwysedd datganoledig.

Mae'r Swyddfa wedi cadw olwg fanwl ar gynnydd seneddol deddfwriaeth ymadael â'r UE yn y Senedd sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys y Bil Amaethyddiaeth, y Bil Pysgodfeydd a'r Bil Masnach. Er bod y Swyddfa wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith datganoli manwl ar y Biliau hyn cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Senedd – ac a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd – rydym wedi cadw cysylltiadau agos ag adrannau Whitehall a Llywodraeth Cymru wrth i'r Biliau fynd drwy'r Senedd ddiwethaf.

Buom yn gweithio'n agos ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd. Er nad yw'r Bil yn cynnwys llawer o ddarpariaethau datganoledig, bu'r Swyddfa'n gweithio i sicrhau bod ei fframwaith ar gyfer rheoleiddio amgylcheddol ar ôl ymadael yn Lloegr yn ymwneud â'r strwythurau datganoledig yng Nghymru ar gyfer rheoli'r amgylchedd.

Roedd biliau ar faterion ymadael â'r UE heb gwblhau eu hynt drwy'r Senedd cyn galw Etholiad Cyffredinol 2019. Mae'r Swyddfa wedi cadw golwg fanwl ar y ddeddfwriaeth wrth i Filiau gael eu hailgyflwyno yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol.

## *Amcan 3 – Cenedl Unedig: darparu setliad datganoli eglurach a chynaliadwy*

***Sicrhau llais cryf i Gymru yng nghalon yr Undeb***

Mae'r Swyddfa wedi parhau i sicrhau bod Cymru'n parhau'n ganolog i ystyriaeth y Llywodraeth o'r Undeb ac mae wedi bod yn llais cryf i Gymru yn Whitehall. Mae Gweinidogion a swyddogion wedi cydweithio'n agos â'u cymheiriaid drwy fwrw ymlaen â ffrydiau gwaith allweddol sy'n edrych sut y gellid cryfhau'r Undeb a

2 Ar 6 Mai 2020 newidiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn Senedd Cymru. Mae cyfeiriadau at y ddeddfwrfa cyn y dyddiad hwn yn cyfeirio ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu 'y Cynulliad'.

llywodraethu'r DU y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys adolygu cysylltiadau rhynglywodraethol a gweithio i sefydlu fframweithiau cyffredin y DU i sicrhau ymagwedd gyson ar draws y DU gyfan yn achos nifer fach o bwerau a fydd yn dychwelyd o'r UE mewn meysydd datganoledig.

Ym mis Mawrth rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dystiolaeth gerbron Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfansoddiad a Chyfiawnder y Cynulliad fel rhan o'i ymchwiliad i'r newid yng nghyfansoddiad y DU. Roedd y sesiwn yn edrych ar gysylltiadau rhynglywodraethol a chonfensiwn Sewel.

Drwy gydol y flwyddyn mae'r Swyddfa wedi bod yn ymgysylltu ag adrannau eraill y Llywodraeth a rhanddeiliaid i gynrychioli buddiannau Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Ym mis Rhagfyr, bu'r Swyddfa yn croesawu Penaethiaid Llysgenadaethau y Swyddfa Dramor a Chymanwlad fel rhan o'u hymweliad deuddydd â Chymru. Roedd yn gyfle i drafod ystod eang o bynciau o ddiddordeb i Gymru i helpu'r cyfranogwyr i gynrychioli a hyrwyddo Cymru yn well yn rhyngwladol. Bu'r Swyddfa hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiad a oedd yn cael ei drefnu gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Phrifysgol Caerdydd i hybu cysylltiadau rhwng y byd academaidd a'r llywodraeth ac i roi arweiniad a chymorth i academyddion ar weithio â swyddogion y llywodraeth.

***Sicrhau bod y setliad datganoli cyfredol yn gweithio'n effeithiol***

Ym mis Gorffennaf, gosododd yr Ysgrifennydd Gwladol Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2016 (Diwygio) 2019 drafft. Mae'r Gorchymyn yn diwygio'r gofynion cydsynio yn Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ganiatáu i'r Cynulliad ddiwygio swyddogaethau swyddogion cofrestru etholiadol (ERO) i ddiben datganoledig heb yr angen i gael cytundeb llywodraeth y DU. Roedd hyn yn helpu i weithredu newidiadau i'r canfasiad blynyddol, gan alluogi swyddogaethau yn gysylltiedig ag ERO i drosglwyddo i Weinidogion Cymru fel y bwriadwyd o dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

Bu'r Gorchymyn yn destun dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar 9 Medi a 24 Hydref, yn y drefn honno a chafodd ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Tachwedd. Gwnaed y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ym mis Rhagfyr.

Mae'r Adran wedi parhau â'r gwaith i baratoi Gorchymyn arall o dan adran 109 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud addasiadau i setliad datganoli Cymru sy'n rhoi ystyriaeth i ymadael â'r UE. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o addasiadau i ofynion cydsyniad ar gyfer swyddogaethau sy'n cael eu gweithredu ar yr un pryd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y Goron ar hyn o bryd. Bydd y Gorchymyn drafft yn amodol ar gymeradwyaeth dau dy'r Senedd a'r Cynulliad.

Mae'r Swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen ddeddfwriaethol gan gynnwys hwyluso ceisiadau am gydsyniadau Gweinidogion y Goron lle bydd angen. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydsynio i ddarpariaethau ym Mil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Cymru) a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 o ran awdurdodau a gedwir yn ôl. Mae'r Adran hefyd wedi gweithio â Llywodraeth Cymru i gefnogi newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru / Welsh Parliament drwy Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020,

gan gynnwys paratoi arweiniad i adrannau Llywodraeth y DU ar sut i ystyried y newid yn neddfwriaeth Senedd y DU.

Mae'r Swyddfa wedi parhau i weithio i wella dealltwriaeth Whitehall o ddatganoli. Mae swyddogion yn aelodau o'r 'Bwrdd Llywio Datganoli a Chi' trawslywodraethol ac mae'n hwyluso sesiynau'n rheolaidd ag adrannau eraill ar ddatganoli a gweithio rhynglywodraethol.

Ym mis Chwefror, cymerodd y Swyddfa ran yn Nosbarth Meistr Datganoli'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO), '*Delivering Foreign Policy for All of the UK in 2020*'. Bu'r digwyddiad yn trafod y materion datganoli diweddaraf a'r newidiadau i gyfansoddiad y DU a pham eu bod yn bwysig i bolisi tramor y DU a sut mae strategaeth ddatganoli'r FCO yn rhan o'r darlun ehangach o ddatganoli ledled y Deyrnas Unedig.

***Deddf Cymru 2014***

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y pumed adroddiad ar y cynnydd a wnaed i weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Neddf Cymru 2014. Mae'r Ddeddf yn golygu ei bod yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol ac Ysgrifenyddion Cymru i gyd yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd i Senedd y DU a Senedd Cymru. Mae'r pedwerydd adroddiad yn rhoi manylion am y gwaith a wnaed i sicrhau bod Cyfraddau Treth Cymru wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus ym mis Ebrill 2019.

***Cefnogi buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru a'r DU***

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r Adran wedi mynychu a threfnu nifer o ddigwyddiadau diwylliannol Cymreig drwy gydol y flwyddyn i gefnogi a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Sioe Frenhinol Cymru lle bu Llywodraeth y DU yn dathlu Cymru a chanmlwyddiant y sioe ac yn arddangos gwaith llywodraeth y DU yng Nghymru.

Ym mis Chwefror, croesawodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol bobl ifanc ac unigolion blaenllaw o elusennau, busnesau a'r celfyddydau yng Nghymru i dderbyniad Gŵyl Ddewi yn Stryd Downing. Bu'r Prif Weinidog yn sgwrsio â stondinwyr a oedd yn arddangos cynnyrch Cymreig gydag eraill yn hyrwyddo eu cyflawniadau a'u gwaith elusennol. Ymhlith y rhai oedd yn bresennol oedd Snowdonia Cheese Company, y bragwyr cwrw crefft Boss Brewing, y cwmni antur Zip World ac Ambiwlans Awyr Cymru. Roedd hwn yn gyfle gwych i ddangos dylanwad Cymru ar raddfa fyd-eang.

I dynnu sylw at Wythnos Cymru yn Llundain, cynhaliodd y Swyddfa Frecwast Rhwydweithio Masnach Ryngwladol, Trafodaeth Panel Busnes a oedd yng ngofal Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Nhŷ Gwydyr mewn partneriaeth â Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD) Cymru a Siambrau Masnach De Cymru, a Derbyniad Diwylliant Cymru mewn partneriaeth ag Omeara. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle ardderchog i hyrwyddo buddiannau diwylliannol Cymru ar hyd a lled Llundain ac i godi ymwybyddiaeth o Gymru ar lefel y DU.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ym mis Awst, lansiodd yr Ysgrifennydd

Gwladol ganllaw newydd ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU i gynllunio a darparu gweithgarwch cyfathrebu dwyieithog sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd yng Nghymru. Cafodd y canllaw, y cyntaf o'i fath gan Lywodraeth y DU, ei gyhoeddi mewn digwyddiad ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg Aled Roberts ym mhafiliwn S4C yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

Cafodd y canllaw ei gymeradwyo gan swyddfa'r Comisiynydd a Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth, y corff proffesiynol i bobl sy'n gweithio mewn rolau cyfathrebu yn y llywodraeth. Wedi eu cynnwys mae argymhellion ar arferion da ar ddylunio a chreu cynnwys dwyieithog safonol mewn meysydd sy'n cynnwys digwyddiadau, ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn gosod dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal pan fyddant yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Hyd yma mae un ar ddeg o adrannau llywodraeth y DU wedi rhoi eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain ar waith o ganlyniad i'r Ddeddf.

Yn y Gyllideb ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Canghellor ymrwymiad i ddeddfu i S4C, y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, i gael yr un statws TAW â'r BBC ac ITN, sy'n werth tua £15 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn cyfrannu at yr uchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a bydd yn helpu i sicrhau'r iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## *Yr Ymateb i Covid-19*

Mae'r Swyddfa wedi gweithredu'n gyflym a phendant i gefnogi ymateb Llywodraeth y DU i'r argyfwng Coronafeirws. Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar gyfyngiadau symud yn y DU ar 23 Mawrth aeth y Swyddfa ati i ailstrwythuro ei gweithrediadau i ganolbwyntio ar ymateb i'r pandemig. Gohiriodd y Swyddfa'r holl waith nad oedd yn hanfodol ac ailstrwythuro ei gweithrediadau fel bod ymateb i Covid-19 yn ganolog i holl weithgarwch y Swyddfa.

Neilltuodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Seneddol ei hamser i gyfrannu at yr ymateb DU gyfan, gan gynnwys gwneud penderfyniadau allweddol ar yr ymateb strategol i'r pandemig yng nghyfarfodydd COBRA a'r Grwpiau Gweithredu Gweinidogion a sefydlwyd i arwain y frwydr yn erbyn y feirws; bu'n gweithio â Phrif Weinidog Cymru a'i Dîm o Weinidogion i sicrhau bod yr ymateb DU gyfan i'r feirws yn gweithio'n dda yn ymarferol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ledled Cymru i'w helpu i ddatrys problemau ac i egluro polisïau a chynlluniau cymorth y Llywodraeth.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi cydweithio'n agos ag adrannau eraill y llywodraeth i gynllunio ar gyfer adferiad y DU yn dilyn y pandemig.

Mae rhai aelodau staff sy'n gweithio ar raglenni pwysig wedi cadw eu portffolios busnes fel arfer, gan gynnwys rhai sy'n gweithio ar raglenni sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r UE ac ar fargeinion dinesig a thwf. Mae mwy o staff wedi'u rhyddhau yn ôl i weithio ar y rhaglenni hanfodol hyn wrth i ymateb y Llywodraeth i Covid-19 esblygu.

Nid yw Covid-19 wedi cael llawer o effaith ar berfformiad a chanlyniadau'r Swyddfa yn 2019-20. Ni chafodd y newidiadau i'r pwyslais a'r strwythurau sefydliadol eu gwneud

tan wythnos olaf y flwyddyn adrodd. Mae effaith Covid-19 ar gyflawni amcanion y Swyddfa yn 2020-21 yn debygol o fod yn llawer mwy arwyddocaol ac adroddir ar hyn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Arweiniodd y cyfyngiadau symud at newid sylweddol i ddiwylliant gwaith y Swyddfa, gyda Gweinidogion a Swyddogion yn gweithio o gartref ac yn defnyddio rhai technolegau am y tro cyntaf. Mae'r Swyddfa wedi ymateb i'r her, gan weithio o bell ac yn effeithiol a helpu i sicrhau bod ein staff yn cadw'n saff. Mae polisïau ac arferion a gyflwynwyd ymhell cyn y pandemig – gan gynnwys polisi gweithio o gartref a gliniaduron a ffonau symudol i'r holl staff – wedi helpu i sicrhau bod y newid i weithio o gartref yn gyfan gwbl wedi bod yn esmwyth. Nid yw'r pandemig wedi arwain at gynnydd yn y salwch a adroddwyd ymhlith staff.

## *Cyllid a Llywodraethu*

Mae'r gwaith o gyflawni'r tri amcan polisi uchod wedi'i seilio ar chwe egwyddor effeithlonrwydd a llywodraethu corfforaethol da, sef: -

- darparu gwerth am arian;
- sicrhau rheolaeth ariannol dda, gan ymateb yn gywir ac yn fuan i ohebiaeth;
- cynnal gweithlu medrus, llawn cymhelliant;
- rheoli gwybodaeth yn effeithiol;
- creu amgylchedd gweithio braf.

Rydym yn dilyn yr egwyddorion hyn wrth gyflawni ein prif weithgareddau corfforaethol.

### *Cyllid*

Pennwyd cyllideb yr Adran ar gyfer 2019-20 yng Nghylch Gwariant 2015.

Roedd setliad ariannol Cymru yn £15.913 biliwn, ac roedd dyraniad y Swyddfa ar gyfer 2019-20 tua £5 miliwn a gwariwyd y rhan fwyaf ohono ar staff a swyddfeydd, a chyfrifoldebau Adrannol eraill megis taliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Dyrannwyd gweddill y setliad (£15.908 biliwn) i'r Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Swyddfa'n trefnu i drosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru, ond Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn penderfynu sut yn union y bydd yr arian yn cael ei wario ac ar beth. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei defnydd o adnoddau ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

### *Effeithlonrwydd*

Er mwyn helpu i gyflawni amcanion a heriau'r adran mae'r Swyddfa'n dal i reoli ei gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol, yn unol ag egwyddorion llywodraethu da a rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo'n llawn i rannu gwasanaethau ac arbenigedd gyda Swyddfeydd Tiriogaethol eraill ac Adrannau eraill y Llywodraeth lle bynnag y bo modd gyda'r bwriad o fanteisio ar bob cyfle posibl i sicrhau effeithlonrwydd a'n gwneud yn fwy gwydn. Rydym ar hyn o bryd yn rhannu tîm seneddol a chynghorydd diogelwch â Swyddfeydd Tiriogaethol eraill a gwasanaeth ceisiadau rhyddid gwybodaeth (RhG) â Swyddfa Gogledd Iwerddon.

O ran adeiladau, mae gan yr adran denantiaid (Arglwydd Raglaw Llundain Fwyaf a'r Comisiwn Annibynnol dros Effaith Cymorth) yn y swyddfa yn Llundain a Swyddfa'r Cabinet yn Swyddfa Caerdydd a gynhyrchodd incwm rhent yn 2019-20 o £112k i'r Adran ac mae'n gwneud defnydd mwy effeithlon o'n hadeiladau. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau rheolaidd gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) ynglŷn â'i rhaglen Ganolfannau ac rydym wedi cytuno mewn egwyddor i symud i Ganolfan newydd Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd pan fydd wedi'i chwblhau.

A ninnau'n adran fach, mae Swyddfa Cymru'n arddel ymagwedd gost effeithiol ac ymarferol at ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol, gan gynnal trefniadau a chontractau fframwaith presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn meysydd megis diogelwch, rheoli cyfleusterau, TG a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn sicrhau budd sylweddol i'r Adran o ran arbedion maint ac arbenigedd.

***Rhwymedigaethau Pensiwn***

Mae manylion am sut yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn yng nghyfrifon Swyddfa Cymru wedi'u datgelu yn yr Adroddiad am Daliadau a Staff ac yn nodyn polisi Cyfrifyddu 1.8.

***Tryloywder***

Mae tryloywder, atebolrwydd a bod yn agored yn ganolog i werthoedd craidd y Swyddfa. Rydym wedi parhau i gyhoeddi maint sylweddol o wybodaeth ar gov.uk, gan gynnwys:

- gwariant dros £500;
- rhoddion a roddwyd ac a gafwyd gan Weinidogion (a Chynghorwyr Arbennig);
- teithiau tramor gan Weinidogion; a
- lletygarwch a gafwyd gan Weinidogion a Chynghorwyr Arbennig.

Yn ystod 2019-20 ymdriniwyd â 175 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG) fel y nodir isod.

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Ceisiadau RhG a dderbyniwyd, o blith y rhain: | 175 |
| Nifer yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn yr estyniad a ganiateir | 175 (100%) |
| Ceisiadau am Adolygiad Mewnol o'n Hymateb | 6 |
| Ymatebion a gyfeiriwyd at y Comisiynydd Gwybodaeth | 0 |

Ceir crynhoad o'n perfformiad Seneddol yn ystod 2019-20 isod:

| Targed | Ffigur gwirioneddol % |
|---|---|
| 100% o'r cwestiynau wedi'u hateb yn brydlon ar ddiwrnod penodol | 96% |
| 100% o'r cwestiynau ysgrifenedig arferol wedi'u hateb yn brydlon | 100% |

Ein perfformiad wrth ymdrin â gohebiaeth yn ystod 2019-20 oedd:

| Targed | Ffigur gwirioneddol % |
|---|---|
| Ymdrin â 100% o'r ohebiaeth cyn pen 15 niwrnod | 68% |

Methwyd â chyflawni'r targed oherwydd lefelau uchel o drosiant staff sy'n golygu bod angen lefelau uwch o hyfforddiant i staff newydd a gostyngiad canlyniadol mewn arbenigedd a gwybodaeth gorfforaethol. Disgwylir y bydd gwella cysondeb staffio yn arwain at welliannau.

***Rhoddion Gwleidyddol ac Elusennol***

Ni wnaeth y Swyddfa unrhyw roddion gwleidyddol nac elusennol yn 2019-20.

***Atal Twyll a Chwythu'r Chwiban***

Mae gan Swyddfa Cymru drefniadau cadarn ar gyfer atal a chanfod twyll ac mae wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn onest ac yn atebol. Mae ein trefniadau yn dilyn yr egwyddorion a amlinellwyd yn y Polisi Rheoli Arian Cyhoeddus a Pholisi Chwythu'r Chwiban Enghreifftiol Gweithwyr y Gwasanaeth Sifil.

Ni roddwyd gwybod am unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod adrodd.

***Swyddfeydd a gwaith Cyfalaf***

Prif swyddfa'r Adran yw Tŷ Gwydyr, yn Whitehall, tŷ tref o'r cyfnod Sioraidd yn wreiddiol, sy'n adeilad rhestredig Gradd II*. Rydym yn cael ein cyngor a'n cymorth proffesiynol gan dîm ystadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a chan ein hasiantau rheoli ein hunain, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu statudol ac â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, treftadaeth a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae gennym raglen gynnal a chadw dreigl ar waith ar gyfer Tŷ Gwydyr sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, a byddwn yn ceisio darparu amgylchedd gweithio diogel i'n staff, i'n Gweinidogion ac i'n hymwelwyr yn barhaus.

Mae'r Adran hefyd yn rhentu swyddfeydd (ar gyfer tua 46% o'i staff) yng Nghymru, a'r rheini wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd yn agos at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Fel y nodir ar y dudalen flaenorol, mae'r Swyddfa yn bwriadu symud i ganolbwynt newydd Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd.

Mae'r ddwy swyddfa'n bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.

***Iechyd a Diogelwch***

Mae'r Swyddfa'n cydnabod ei rhwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, bod trefniadau iechyd a diogelwch effeithiol yn cael eu datblygu.

Yn ystod 2019-20, ni roddwyd gwybod am unrhyw ddamweiniau i'r awdurdodau perthnasol.

# Datblygu Cynaliadwy

Paratowyd yr adroddiad datblygu cynaliadwy hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EM yn 2019–20 yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' a gyhoeddwyd yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/832776/sustainability_reporting__guidance_2019-20.pdf

Canolbwyntir ar gyflawni targedau'r llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a gostwng costau. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Mae'r adran wedi'i lleoli yn Nhŷ Gwydyr yn Llundain. Mae hefyd yn defnyddio rhan o Caspian Point ym Mae Caerdydd ond nid yw swyddfeydd a rennir yn cael eu cyfrif oherwydd anhawster tynnu data dibynadwy am gynaliadwyedd o'r taliadau am wasanaeth a ddarperir gan landlordiaid.

***Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol***

Mae perfformiad amgylcheddol y Swyddfa'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

***Ymrwymiadau yng nghyswllt Effeithiau Amgylcheddol***

Mae Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth, a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011, yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau gymryd camau i leihau effaith ei gwaith ar yr amgylchedd yn sylweddol. Gellir gweld yr ymrwymiadau hyn yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/585344/greening-government-commitments-overview-reporting-requirements-2016-2020.pdf

Mae Ymrwymiad yr Adran i Leihau Carbon yn cael ei reoli gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy:

a. gynyddu ystod yr eitemau y gellir eu casglu ar gyfer ailgylchu yn ein dau adeilad;

b. newid peiriannau argraffu am fodelau sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon; a

c. defnyddio cludiant cyhoeddus lle bo modd yn hytrach na cheir wrth deithio i gyfarfodydd.

| Tunelli Allyriadau $CO_2$ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
| Teithio mewn Awyren | 3.56 | 5.09 | 36.01 | 31.42 | 49.65 |
| Teithio ar Drên | 10.12 | 16.06 | 15.56 | 16.29 | 11.98 |
| Milltiroedd mewn Ceir | 0.38 | 1.21 | 1.92 | 2.34 | 1.92 |
| Gwresogi Nwy | 16.77 | 18.81 | 23.59 | 19.70 | 13.40 |
| Trydan* | 26.59 | 21.82 | 26.68 | 23.42 | 11.10 |
| Gwastraff | 0.32 | 0.18 | 0.11 | 0.04 | 0.01 |
| Cyfanswm Tunelli $CO_2$ | 57.74 | 63.17 | 103.87 | 93.21 | 88.06 |
| Defnyddio Dŵr Metrau Ciwbig** | 1972 | 6271 | 385 | 212 | 427 |

* Mae'r ffactor trosi $CO_2$ wedi lleihau yn 2019 o ganlyniad i leihad mewn cynhyrchu glo a chynnydd mewn ynni adnewyddadwy a gynhyrchir.

** Defnyddiwyd llai o ddŵr yn 2017-18 o ganlyniad i drwsio pibell a oedd yn gollwng yn ystod y flwyddyn flaenorol ac mae'r defnydd yn seiliedig ar wir ddarlleniad y mesurydd yn hytrach nag amcangyfrif fel yn y flwyddyn flaenorol.

Lle bydd y Swyddfa'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu o dan gontract iddi, bydd ein cyfraniad at ymrwymiadau'r llywodraeth o ran yr effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael ei gyflawni o fewn y fframweithiau ehangach hynny.

# Adolygiad Ariannol

Yn 2019-20 gwariodd y Swyddfa £15.3bn o fewn Amcangyfrifon y Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Ategol y Gwanwyn), yn bennaf ar ffurf grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

***Perfformiad Ariannol***

Bydd y Senedd yn dyfarnu arian drwy bleidlais i adrannau ar ddau achlysur yn y flwyddyn drwy gyfrwng Prif Amcangyfrif ar ddechrau'r flwyddyn ac Amcangyfrif Atodol Unigol ym mis Chwefror.

***Symudiadau yn narpariaeth yr Amcangyfrif yn ystod 2020–21***

Ar ddechrau'r flwyddyn, dyfarnwyd £15.5 biliwn drwy bleidlais i'r Adran yn ei Phrif Amcangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Atodol Unigol terfynol, roedd hyn wedi cynyddu i £15.9 biliwn, yn bennaf oherwydd cynnydd o £405,299,000 yn y cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru.

***Esboniad am yr amrywiadau rhwng yr Amcangyfrif a'r Alldro Adnoddau Net***

***Adnoddau Swyddfa Cymru***

| Gwariant o fewn Terfyn Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcan % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 4,681 | 5,082 | 401 | 8 |

Gellir priodoli'r tanwariant o £401k yn erbyn yr Amcangyfrif o'r Cyflenwad yn bennaf i oedi na ellid ei osgoi wrth recriwtio staff newydd drwy gydol y flwyddyn, gwariant llai na'r disgwyl ar deithio a chynhaliaeth o ganlyniad i Etholiad Cyffredinol y DU a newid wedi hynny i'r tîm Gweinidogion; gwariant is nag a ragwelwyd ar wasanaethau swyddfa ac Arglwydd Raglawiaid a chronfeydd wrth gefn heb eu defnyddio.

| Gwariant a fewn yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcan % |
|---|---|---|---|---|---|
| B | Swyddfa Cymru | 243 | 243 | 0 | 0 |

Mae'r gwariant yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer dirywiadau a les feichus bosibl ar gyfer Swyddfa Caerdydd. Gweler nodyn 11 Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau ac Arwystlon.

*Swyddfa Cymru – Cyfalaf*

| Gwariant o fewn Terfyn Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcan % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 45 | 50 | 5 | 10 |

Roedd alldro'r gwariant cyfalaf yn llai nag a ddisgwylid i ddechrau ac arweiniodd at ychydig o danwariant yn erbyn y gyllideb gymharol fach.

*Anghyllidebol Costau*

| Gwariant o fewn Terfynau Anghyllidebol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcan % |
|---|---|---|---|---|---|
| C | Grant yn daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) | 13,278,546 | 13,848,633 | 570,087 | 4.1 |
| D | Talu Cyfraddau Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru (WCF)* | 2,059,000 | 2,059,000 | 0 | 0 |
| | **Total to WCF** | **15,337,546** | **15,907,633** | **570,087** | **4.1** |

* Ar y 6ed o Ebrill 2019, cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) yng Nghymru. Dewisodd Llywodraeth Cymru i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i gyfraddau treth incwm yn 2019-20. Caiff derbyniadau o WRIT eu hychwanegu at Grant Bloc Cymru.

*Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol*

Mae'r asedau net ar 31 Mawrth 2020 yn £4.5m (2018-19 £4.9m). Y balansau arwyddocaol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yw: -

- Eiddo, offer a chyfarpar £5.5m: – Mae hyn yn bennaf yn cynnwys swyddfeydd Swyddfa Cymru yn Llundain (Tŷ Gwydyr) sy'n £5.3m;
- Mae'r Asedau Ariannol a Rhwymedigaethau o 72.5m yn fenthyciadau i Lywodraeth Cymru o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Mae symiau llog a thaliadau cyfalaf Cronfa'r Benthyciadau Gwladol yn cael eu mantoli gan symiau cyfatebol mewn asedau cyfredol, a symiau taladwy.

***Cysoni gwariant net ar adnoddau rhwng Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon***

| | 2019-20<br>£000 | 2018-19<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon) | 15,342,470 | 14,586,680 |
| Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn y gyllideb* | (15,337,546) | (14,582,040) |
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau'r Gyllideb** | **4,924** | **4,640** |
| Sy'n cynnwys | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) | 4,681 | 4,633 |
| Terfyn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | 243 | 7 |
| | | |
| Mae'r addasiadau'n cynnwys | | |
| Anghyllidebol Eitemau* | 15,337,546 | 14,582,040 |
| **Cost Gweithredu Net (Cyfrifon)** | **15,342,470** | **14,586,680** |

* Eitemau anghyllidebol yw'r Grant sy'n Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a Thalu Cyfraddau Treth Incwm Cymru i'r Gronfa Gyfunol. Gweler y Datganiad Cyflenwad Seneddol SOPS1.

** Mae'r AME yn berthnasol i gynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer costau dadfeiliad lesddaliad a darpariaeth Newydd ar gyfer prydles feichus bosibl. Gweler Nodyn 11.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**8th Gorffennaf 2020**

# 2 Yr Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwr

### Gweinidogion, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion

| Gweinidogion/Cyfarwyddwyr/Uwch Swyddogion |
|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS†**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru o 16 Rhagfyr 2019 |
| **Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS††**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru hyd at 6 Tachwedd 2019 |
| **David TC Davies AS†††**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 16 Rhagfyr 2019 |
| **Kevin Foster AS††††**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru rhwng 4 Ebrill 2019 a 16 Rhagfyr 2019 |
| **Nigel Adams AS†††††**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 3 Ebrill 2019 |
| **Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth††††††**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 26 Gorffennaf 2019 |
| **Alison White** – Aelod Anweithredol Arweiniol o'r Bwrdd (NEBM) |
| **Peter Umbleja** – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Ashok Ahir** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu |
| **Charlotte Cantle** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 23 Medi 2019 |
| **Michael Dynan–Oakley** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 1 Medi 2019 |
| **Louise Parry and Kate Starkey** – Cyd-ddirprwy Gyfarwyddwyr, Polisi o 10 Mehefin 2019 |
| **Sarah Stoney*** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfreithiol |

**Nodiadau**

† Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019, penodwyd y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Nid oedd unrhyw un yn dal swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng y 6ed o Dachwedd a'r Etholiad Cyffredinol.

†† Ar 6 Tachwedd 2019, ymddiswyddodd y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns o'i swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

††† Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019, penodwyd David TC Davies yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Kevin Foster AS.

†††† Ar 4 Ebrill 2019, penodwyd Kevin Foster AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Nigel Adams AS.

††††† Ar 3 Ebrill 2019, ymddiswyddodd Nigel Adams AS o'i swydd fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru.

†††††† Ar 26 Gorffennaf 2019, ymddiswyddodd yr Arglwydd Bourne o'i swydd fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru.

* Mae Sarah Stoney yn cael ei chyflogi gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth (GLD). Mae hi'n aelod o Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Swyddfa ond nid yw'n aelod o Fwrdd yr Adran.

Roedd gan y Swyddfa ddau aelod anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) – Alison White (NEBM arweiniol) a Peter Umbleja (NEBM). Mae manylion holl bwyllgorau'r Swyddfa a'u haelodau i'w cael yn y "Datganiad Llywodraethu" (tudalen 26).

***Diogelwch a diogelwch gwybodaeth***

Nid yw'r Swyddfa yn ymdrin â llawer iawn o ddata sensitif neu bersonol. Serch hynny, mae wedi ymrwymo i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei chadw'n cael ei thrin a'i gwarchod yn gywir a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Bydd asedau a risgiau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth yn cael eu nodi ac mae trefniadau rheoli ar waith i reoli sut y maent yn cael eu defnyddio. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddwn yn defnyddio pecyn hyfforddi a ddarperir drwy Ddysgu'r Gwasanaeth Sifil i hyfforddi'r holl staff yn flynyddol ynghylch materion sy'n ymwneud â sicrhau diogelwch gwybodaeth a thrin data. Ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau diogelwch yn ystod 2019-20.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Swyddfa i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau sy'n manylu ar yr adnoddau a gafaelwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a sut y defnyddiwyd yr adnoddau hynny gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg gwir a theg ar gyflwr materion Swyddfa Cymru ac o'i hincwm a gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifau am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, bydd gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn benodol:

- Dilyn y Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu addas ar waith ar sail gyson;

- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol yn unol â'r Government Financial Reporting Manual, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o sylwedd yn y cyfrifon;

- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw;

- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau gofynnol i benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Glynne Jones, Cyfarwyddwr y Swyddfa yn Swyddog Cyfrifyddu'r Swyddfa.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb am gywirdeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Swyddfa, wedi'u rhestru yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

# Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Mae Cyfrifon y Swyddfa wedi'u paratoi ar sail statudol yn unol â gofynion Trysorlys EM ac maent wedi'u llunio i gydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon cyffredinol a roddwyd i'r adrannau gan Drysorlys EM o dan adran 5(2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Caiff y datganiadau ariannol eu harchwilio gan y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, a gaiff ei benodi o dan statud ac sy'n atebol i'r Senedd yng nghyswllt y gwaith archwilio. Caiff taliadau a threuliau'r Archwilwyr eu datgelu yn Nodyn 2 i'r cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni wnaed unrhyw daliadau i'r archwilwyr am waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio (2018-19: £dim).

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu a'r Cyfarwyddwr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Swyddfa'n ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Swyddfa'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu/Cyfarwyddwr drwy hyn yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy, a'i fod yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, a'r dyfarniadau yr oedd eu hangen er mwyn penderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

# Y Datganiad Llywodraethu

## *Cyflwyniad*

Fel Cyfarwyddwr y Swyddfa, fi hefyd yw ei Swyddog Cyfrifyddu. Yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn fy llythyr penodi, ac fel y maent wedi'u hamlinellu yn Managing Public Money, rwy'n gyfrifol am lywodraethu'r Swyddfa.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol i'r Senedd am stiwardiaeth yr adnoddau sydd dan reolaeth y Swyddfa ac am eu rheoli, ac rwyf hefyd yn gyfrifol am gynnal system reolaethau mewnol gadarn.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, y mae'r Swyddfa'n cael ei chyfarwyddo a'i rheoli drwyddynt a'r modd y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cynnwys y broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion a barnu a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at ganlyniadau priodol a chost effeithiol.

Mae Datganiad Llywodraethu'r Swyddfa yn nodi'r strwythurau llywodraethu, y rheolaethau mewnol a gweithdrefnau rheoli risg a gafodd eu gweithredu yn y Swyddfa yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 a hyd at y dyddiad pan osodwyd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon gerbron y Senedd.

## *Cyfrifoldebau Gweinidogion*

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi cyfeiriad gwleidyddol i'r Swyddfa ac mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cael ei gefnogi gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, a Barwnes Breswyl (Chwip y Llywodraeth) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chan dîm bach o weision sifil sy'n cael ei arwain gan Gyfarwyddwr y Swyddfa.

Mae'r Gweinidogion yn arwain adrannau ac maent yn gyfrifol ac yn atebol i'r Senedd am weithrediadau a pholisïau eu hadrannau. Mae Byrddau, o fewn y fframwaith strategol a bennir gan Weinidogion, yn cefnogi pennaeth yr Adran drwy roi cyngor i Weinidogion ynglŷn â pherfformiad yr Adran. Mae'r Gweinidogion ac aelodau'r bwrdd yn gyfrifol am lywodraethu corfforaethol, sy'n diffinio hawliau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid, yn pennu rheolau a gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac yn cynnwys y broses o bennu a monitro amcanion yr Adran.

## *Strwythurau Llywodraethu Corfforaethol*

Mae'r gwaith o reoli'r Swyddfa'n cael ei oruchwylio gan Fwrdd Adrannol a sefydlwyd ym Medi 2015 ac sy'n cyfarfod hyd at chwe gwaith mewn blwyddyn ariannol. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cyfarwyddwr mewn cyfarfodydd lle nad oes Gweinidogion yn bresennol.

Mae Bwrdd yr Adran yn gyfrifol am roi cyngor ynglŷn â chyfeiriad strategol y Swyddfa (nodau ac amcanion) yn unol â pholisïau sy'n cael eu penderfynu gan Weinidogion,

craffu ar y cynllun busnes a sicrhau bod gan y swyddfa'r gallu a'r capasiti i gyflawni'r cynllun busnes, er mwyn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r Senedd. Mae manylion am aelodaeth y Bwrdd i'w gweld isod.

Yn 2019-20, bu'r Bwrdd yn adolygu, yn cytuno ar ddiweddariadau ac yn monitro cynnydd o ran perfformiad, blaenoriaethau ac amcanion y Swyddfa.

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Adran gan yr Aelod Anweithredol Arweiniol o'r Bwrdd (NEBM) yn 2020. Canlyniad ei hadolygiad yn ei barn hi oedd bod y Bwrdd wedi parhau i wella'i effeithiolrwydd ers adolygiad y llynedd. Mae'r meysydd lle mae'r Bwrdd wedi cryfhau ei berfformiad yn cynnwys:

- Mae aelodaeth y Bwrdd yn galluogi trafodaethau da, ar sail gwybodaeth, lle gall y Bwrdd ganolbwyntio o ddifrif ar reoli perfformiad, gyda NEDau yn gweithredu fel her effeithiol;
- Mae trafodaethau rheolaidd ynglŷn â rhanddeiliaid a'u canfyddiadau o'r Adran
- Mae'r sylw i reoli risg gan y Bwrdd wedi gwella.

Meysydd y mae angen i'r Bwrdd eu datblygu ymhellach yw: -

- Ehangu rôl y Bwrdd a dangos yn eglur sut y mae'n gwahaniaethu rhwng rôl y Pwyllgor Archwilio a'r broses o reoli risg;
- Byddai aelodau'n gwerthfawrogi mwy o drafod ar rôl y Bwrdd o ran pennu strategaethau, a chraffu ar berfformiad;
- Y potensial i gynyddu craffu gan y Bwrdd ar brosiectau rhaglenni gwariant mawr y DU yng Nghymru.

Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr i drafod polisi, strategaeth a materion Adrannol.

**Dangosir presenoldeb yn y Bwrdd Adrannol yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod:**

## Bwrdd Adrannol

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd |
|---|---|
| ***Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS** Cadeirydd†<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru o 16 Rhagfyr 2019 | **1 of 1** |
| ***Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS** Cadeirydd††<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru hyd at 6 Tachwedd 2019 | **1 of 1** |

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd |
|---|---|
| ***David TC Davies AS**††† <br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 16 Rhagfyr 2019 | **1 of 1** |
| ***Kevin Foster AS**†††† <br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru rhwng 4 Ebrill 2019 ac 16 Rhagfyr 2019 | **1 of 1** |
| ***Nigel Adams AS**††††† <br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru rhwng hyd at 3 Ebrill 2019 | **0 of 0** |
| ***Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth**†††††† <br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 26 Gorffennaf 2019 | **0 of 0** |
| **Alison White** – Aelod Anweithredol Arweiniol o'r Bwrdd (NEBM) | **5 of 5** |
| **Peter Umbleja** – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) | **5 of 5** |
| **Glynne Jones CBE** – Cyfarwyddwr | **5 of 5** |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | **5 of 5** |
| **Ashok Ahir** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu | **5 of 5** |
| **Charlotte Cantle** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 23 Medi 2019 | **3 of 3** |
| **Michael Dynan-Oakley –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 1 Medi 2019 | **2 of 2** |
| **Louise Parry a Kate Starkey –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi o 10 Mehefin 2019 | **4 of 4** |

**Nodiadau**

* Disgwylir i Weinidogion fynychu dau gyfarfod o'r Bwrdd y flwyddyn.

† Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019, penodwyd y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Nid oedd unrhyw un yn dal swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng y 6ed o Dachwedd a'r Etholiad Cyffredinol.

†† Ar 6 Tachwedd 2019, ymddiswyddodd y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns o'i swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

††† Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Rhagfyr 2019, penodwyd David TC Davies yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Kevin Foster AS.

†††† Ar 4 Ebrill 2019, penodwyd Kevin Foster AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Nigel Adams AS.

††††† Ar 3 Ebrill 2019, ymddiswyddodd Nigel Adams AS o'i swydd fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru.

†††††† Ar 26 Gorfennaf 2019, ymddiswyddodd yr Arglwydd Bourne o'i swydd fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru. Mae'r Farwnes Bloomfield (Chwip y Llywodraeth) yn gweithredu fel Llefarydd ar ran y Swyddfa yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Pwyllgorau sy'n Adrodd i'r Bwrdd Adrannol

### *Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)*

Mae'r ARAC yn cael ei gadeirio gan yr NEBM Arweiniol, ac mae'n cynnwys un NEBM arall ac un aelod annibynnol arall. Mae'r aelod annibynnol wedi bod yn y swydd ers tair blynedd. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n unol â Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio'r Trysorlys, ac mae'n cyfarfod yn chwarterol. Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad llawn o'i effeithiolrwydd ym mis Mawrth 2020 gan ofyn am farn ei aelodau. Y farn oedd bod y Pwyllgor yn gweithredu'n llwyddiannus yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar ei rôl; roedd y Pwyllgor yn cael ei gymryd o ddifrif ac roedd yn ddylanwadol wrth roi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn â risgiau a sicrwydd, er gwaetha'r heriau i weithrediadau arferol y busnes o ganlyniad i weithgareddau yn gysylltiedig ag Ymadael â'r UE.

Roedd y materion a drafodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- cofrestrau risg a phrosesau llywodraethu'r Adran;
- yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;
- Cyfrifon Cronfa'r Benthyciadau Gwladol;
- adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol.

**Roedd presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:**

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd |
|---|---|
| **Alison White** – Aelod Anweithredol Arweiniol o'r Bwrdd (NEBM), Cadeirydd | **4 of 4** |
| **Peter Umbleja** – NEBM | **4 of 4** |
| **Sam Hartley**[1] – Aelod Annibynnol | **4 of 4** |

**Troednodiadau**
**Nodyn 1:** Ar hyn o bryd Sam Hartley yw'r Ysgrifennydd i'r Comisiwn Annibynnol ar Sŵn Hedfan Sifil.

## Pwyllgorau eraill

Mae gan y Swyddfa hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch gyda chylch gorchwyl i gynghori'r Bwrdd ar sicrhau bod y Swyddfa'n darparu amgylchedd gwaith iach a diogel i'w staff, Gweinidogion ac ymwelwyr.

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, unwaith yn ystod 2019-20. Bu'n ystyried nifer o wahanol faterion, gan gynnwys adrodd am ddamweiniau yn y gwaith a hyfforddiant i wardeniaid tân, swyddogion cymorth cyntaf ac aseswyr DSE.

## Canfod a rheoli risgiau

Mae system rheolaeth fewnol y Swyddfa wedi'i chynllunio i adnabod risgiau busnes a'u lliniaru yn unol â'r archwaeth risg a ddiffiniwyd gan y Bwrdd. Mae'n seiliedig ar broses barhaus a luniwyd er mwyn adnabod a blaenoriaethu risgiau a allai effeithio ar allu'r Adran i gyflawni ei hamcanion, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith bosibl, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae cadernid y system hon i'w weld o hyd yn y modd y mae'r Adran yn rheoli ei phrif risgiau strategol. Yn 2019-20 roedd y risgiau hyn yn cynnwys y canlynol: -

- Methiant i gefnogi gwaith ar ymadawiad y DU â'r UE, ac yn fwyaf arbennig yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymadael;

- Methiant i gefnogi agenda Twf y DU yng Nghymru a chydweithio â Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau twf economaidd yng Nghymru;

- Methiant i sicrhau bod model cadw pwerau ar gyfer datganoli yng Nghymru'n gweithio'n effeithiol;

- Methiant i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yng ngwaith polisi a deddfwriaeth adrannau Llywodraeth y DU;

- Y Swyddfa'n methu â rhoi digon o adnoddau neu'n methu â rhoi adnoddau addas i gyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth ar gyfer Cymru.

Mae gan y Swyddfa reolaethau cryf i liniaru'r risgiau hyn. Er enghraifft, o ran y risg allweddol o fethu â chefnogi gwaith ar ymadawiad y DU â'r UE, a'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ymadawiad. Mae'r Swyddfa'n ymwneud yn llawn â gwaith ar Ymadael â'r UE sy'n cael ei arwain gan yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DExEU) a Swyddfa'r Cabinet ac mae uwch swyddogion y Swyddfa yn mynychu pob cyfarfod yn Whitehall sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE. Mae cysylltiadau â Llywodraeth Cymru ar faterion ymadael wedi bod yn bositif ar y cyfan. Roedd ein Gweinidogion yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yng Nghymru ar Ymadael ac roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bresennol ym mhob cyfarfod dwyochrog rhwng Gweinidogion y DU a Phrif Weinidog Cymru i adolygu cynnydd. Mae Swyddfa Cymru wedi sicrhau adnoddau ychwanegol, ac wedi creu swyddi ychwanegol, i ganolbwyntio ar waith Ymadael, ac roedd Swyddogion yn ymwneud â chynllunio senarios Ymadael, gan weithio ochr yn ochr ag Adrannau eraill y Llywodraeth. Gadawodd y DU yr UE gyda chytundeb ymadael ar 31 Ionawr 2020. Mae swyddogion y Swyddfa a Gweinidogion yn awr yn ymgysylltu ag Adrannau eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau ar gytundeb masnach â'r UE yn y dyfodol.

## Capasiti i ymdrin â risg

Cafodd risgiau eu canfod a'u cyfleu ar lefel strategol ac ar lefel weithredol gan y Bwrdd Adrannol ac ar lefel weithio gan y timau yn y pedair isadran. Roedd cofrestrau risg y gangen yn ategu ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Strategol Adrannol gyffredinol a oedd yn cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Bu'r Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) hefyd yn adolygu ei ddulliau rheoli risg yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y prif risgiau wedi cael eu nodi a bod mesurau priodol a chymesur ar waith i reoli lefel y risg a'i chadw ar lefel dderbyniol. Cafodd y Bwrdd sicrwydd gan yr Uwch Dîm Arwain ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaethau i reoli risg weithredol a gan yr ARAC ynglŷn ag effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg.

Mae'r ARAC yn arwain ar graffu ac ymdrin â risgiau allweddol, a chynhaliodd adolygiad manwl o'r cofrestrau risg adrannol a sut roeddent yn cael eu rheoli.

Ceir enghraifft o allu'r Swyddfa i ymdrin â risgiau newydd yn ei ymateb cychwynnol i'r pandemig COVID 19.

## Ymateb Cychwynnol i COVID 19

Ym mis Mawrth 2019 gohiriodd y Swyddfa bob gwaith nad oedd yn hanfodol er mwyn neilltuo adnoddau i ymateb i'r pandemig Covid-19. Mae'r Swyddfa'n cyfrannu'n llawn at y gwaith Whitehall gyfan ar Covid-19. Mae Cyfarwyddwr y Swyddfa'n aelod o'r grŵp "pedair cenedl", sy'n helpu i gydlynu'r ymateb i Covid-19 yn y cenhedloedd ac mae swyddogion y Swyddfa a Gweinidogion mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth Cymru.

Mae'r Swyddfa'n cydweithio'n agos ag Adrannau eraill y Llywodraeth ar yr ymateb i'r pandemig, ac mae mewn cysylltiad â rhanddeiliaid yng Nghymru, yn enwedig y rhai hynny yn y sectorau sy'n cael eu heffeithio fwyaf, er enghraifft, busnesau bach a'r diwydiant awyrennau, ac mae'n adrodd yn ôl i galon y llywodraeth.

Mae hon yn risg sy'n parhau ac sy'n cael ei monitro'n ddyddiol gan Weinidogion a Swyddogion.

## Fframwaith Risg a Rheoli Risg

Roedd gan y Swyddfa Fframwaith a Strategaeth Polisi Rheoli Risg, wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd. Mae'r Polisi'n amlinellu ei weithdrefnau'n glir, ac yn hybu diwylliant tryloyw ac atebol i gefnogi trefniadau rheoli risg cyson, amserol ac effeithiol ar draws yr Adran.

Cefnogwyd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch reolwyr a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheoli mewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r argymhellion a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

## Datganiadau Sicrwydd

Mae angen i bob Dirprwy Gyfarwyddwr gwblhau a llofnodi datganiad Tystysgrif Sicrwydd wedi'i ategu gan Restr Wirio Rheolaeth Fewnol wedi'i chwblhau. Eleni, cafodd y datganiadau i gyd eu hadolygu gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth a chan Gadeirydd ac aelodau'r ARAC fel rhan o'r adolygiad llywodraethu.

Roedd dau fater a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r broses datganiad sicrwydd:-

1. Diffyg cynlluniau adrannol i fwrw ymlaen â chynllun busnes yr Adran;

2. Roedd cydymffurfiaeth â sicrwydd gwybodaeth yn dda ar y cyfan ond nid oedd yn gyson ym mhob agwedd.

Nid yw'r rhain yn arwyddocaol a'r bwriad yw rhoi sylw iddynt yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Archwilio Mewnol

Mae Trysorlys EM yn nodi bod yn rhaid i archwilio mewnol roi sicrwydd diwedd blwyddyn ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth adran. Mae sicrwydd Archwilio Mewnol yn un o'r prif ffynonellau tystiolaeth sy'n sail i Ddatganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r sicrwydd Archwilio Mewnol yn seiliedig ar waith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â gwybodaeth o'r fframwaith llywodraethu, risg a rheoli a gafwyd drwy fynychu cyfarfodydd a thrafodaethau gyda'r uwch reolwyr. Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n gweithio yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae ei gwaith yn seiliedig ar ei dadansoddiad o'r risgiau y mae'r Adran yn agored iddynt ac mae'r cynllun archwilio blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw. Bydd y cynllun yn cael ei drafod a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac yna'n cael ei gytuno gyda'r Swyddog Cyfrifyddu.

Roedd cynllun archwilio mewnol 2019-20 yn cynnwys adolygiadau o'r canlynol: Ymdrin â Chwestiynau Seneddol a Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Rheoli Gwasanaethau Swyddogaeth Gynnal; Costau Teithio a Chynhaliaeth a Rheoli Cyflawni Mentrau.

Mae Pennaeth y GIAA yn rhoi barn yn flynyddol yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth yr adran. Mae'r adolygiadau archwilio mewnol yn cyfrannu at y farn honno.

Nododd y farn archwilio mewnol ar gyfer 2019-20 lefel dda o reolaeth ac ni chanfuwyd unrhyw faterion rheoli sylweddol. Yn y cyd-destun hwn, roedd Pennaeth y GIAA yn gallu rhoi lefel gymedrol o sicrwydd o ran digonolrwydd y fframwaith llywodraethu a rheoli yn y Swyddfa. Amlygodd y GIAA fod eu barn yn seiliedig i raddau helaeth ar y gwaith a'r gweithgarwch a gyflawnwyd cyn effaith Covid 19 a'r newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rhoddodd y Swyddfa sylw llawn i ganllawiau Trysorlys EM ar Lywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog (Ebrill 2017) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol. Roedd hyn, serch hynny, wedi'i wneud yn unol â'i maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth (i ddarparu cymorth a chyngor am bolisïau i Weinidogion yn hytrach na chyflenwi rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd). Meysydd lle nad yw'r Adran yn llwyr gydymffurfio â'r canllawiau yw:

- Nifer Aelodau Anweithredol y Bwrdd. Ar ôl ystyriaeth ddyladwy gan y Cyfarwyddwr, y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn dilyn trafodaethau ag Archwilwyr Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, penderfynodd yr Adran i beidio â chynyddu nifer yr Aelodau Anweithredol. Y farn oedd bod yr aelodaeth bresennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 45 o staff). Roedd y ddau Aelod Anweithredol o'r Bwrdd yn 2019-20 yn cynnig sgiliau a phrofiad eithriadol o werthfawr sy'n arbennig o berthnasol i'r Swyddfa. Mae'r Aelod Anweithredol arweiniol yn gyfrifydd cymwysedig ac yn gadeirydd ac aelod annibynnol profiadol o'r pwyllgorau archwilio a risg, gan gynnwys yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a Chanolfan Gynadleddau'r Frenhines Elizabeth yr Ail. Mae'r ail Aelod yn gyfrifydd siartredig wedi ymddeol o Dde Cymru sydd â dros 30 mlynedd o brofiad mewn rolau arweinyddiaeth.

- Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod, mae swyddog o'r Comisiwn Annibynnol ar Sŵn Hedfan Sifil yn gwasanaethu fel aelod annibynnol.

- Dylai Aelodaeth y Bwrdd gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid: – Oherwydd maint y Swyddfa, ac er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y Gweinidogion a'r Swyddogion sy'n aelodau o'r Bwrdd, nid yw'r Pennaeth Cyllid yn aelod o'r Bwrdd ond mae'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn cynnig cyngor.

## Diogelwch a diogelwch gwybodaeth

Ymdrinnir â hyn yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Gweler tudalen 23.

## Risg a Sicrhau Risg ym Maes Gwybodaeth

### *Asedau Gwybodaeth*

Nid yw'r Swyddfa yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cadw cronfeydd data mawr o ddata personol. Mae ychydig o ddata personol yn cael eu cadw ar ffurf cofnodion personol a chyllid, a gohebiaeth gan y cyhoedd ac Aelodau Seneddol (AS), Aelodau Cynulliad (AC) ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall a gedwir gan yr Adran yn cynnwys papurau corfforaethol a pholisi, a phapurau Pwyllgorau'r Cabinet.

Mae'r Swyddfa yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol Ewropeaidd ar Ddiogelu Ddata a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018.

***Gwybodaeth Rheoli***

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael gwybodaeth am ansawdd reoli ynghylch perfformiad y Swyddfa i'w galluogi i asesu, herio ac ysgogi gwelliannau yn ôl y gofyn.

***Risgiau a'r Dull o'u Rheoli***

Gan mai ychydig o wybodaeth sensitif sy'n cael ei chadw gan y Swyddfa, nid yw'r risg mor fawr nes bod angen strategaethau rheoli helaeth neu arbennig.

## Canlyniadau yn ystod 2019-20

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2019-20.

## Adroddiad cryno gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Ar sail ei waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn (1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020) gall y Pwyllgor roi sicrwydd rhesymol ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r trefniadau archwilio i'r Asiantaeth ac ynglŷn â'r sicrwydd a roddwyd i'r Swyddog Cyfrifyddu o ran y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a'r trefniadau rheoli. Gall hefyd roi sicrwydd bod y prosesau sydd wedi'u sefydlu er mwyn llunio'r cyfrifon ariannol ar gyfer y Swyddfa yn rhai cadarn.

***Asesiad o'r system reoli mewnol***

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod system reoli fewnol y Swyddfa yn ddigonol er mwyn cyflawni amcanion yr Adran. Rhoddir y sicrwydd hwn ar y sail bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r risg, lle nodwyd bod y Swyddfa yn agored i risg, neu fod pawb yn deall yn iawn beth yw natur y risg ac yn derbyn hynny.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**8th Gorffennaf 2020**

# Adroddiad am Daliadau a Staff

## Adroddiad Taliadau

Mae'r Adroddiad Taliadau a Staff yn crynhoi taliadau Gweinidogion, Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd, Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd a staff; mae hefyd yn cynnwys manylion costau gwirioneddol a threfniadau cytundebol.

Paratowyd yr adroddiad Taliadau a staff yn unol â gofynion y llawlyfr adroddiadau ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae rhai o'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi bod yn destun archwiliad gan yr archwilydd allanol, y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Nodir yn glir pan fydd tablau wedi bod yn destun archwiliad.

### Polisi Taliadau

Pennir taliadau i uwch weision sifil gan Brif Weinidog y DU ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

Bydd y Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd am gyflogau a phensiynau Aelodau Seneddol a'u lwfansau; am lwfansau'r Arglwyddi; ac am gyflogau, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl dan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975.

Wrth lunio'i argymhellion, bydd y Corff Adolygu'n rhoi sylw i'r ystyriaethau a ganlyn:

- bod angen recriwtio, cadw a chymell pobl alluog a chymwysedig addas i roi eu gwahanol gyfrifoldebau ar waith;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- polisïau'r llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i Adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflawni gwasanaethau Adrannol;
- yr arian sydd ar gael i Adrannau, fel y'i pennir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth;
- targed chwyddiant y Llywodraeth.

Bydd y Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a pha mor fforddiadwy yw ei argymhellion.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com

## Cydnabyddiaethau ariannol aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil

Nid yw'r Swyddfa yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r holl staff naill ai'n cael eu cyflogi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu ar fenthyg o Adrannau eraill y Llywodraeth. Pennir cyflogau Uwch Weision Sifil yn unol â pholisi taliadau Uwch Wasanaeth Sifil Swyddfa'r Cabinet.

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gweision sifil gael eu gwneud ar sail rhagoriaeth mewn cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau sy'n caniatáu penodi drwy ddulliau eraill.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r swyddogion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi penagored. Byddai diddymu swyddi yn gynnar, ac eithrio mewn achos o gamymddwyn, yn arwain at ddyfarnu iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn https://civilservicecommission.independent.gov.uk/.

## Cyflogau Gweinidogion a hawliau pensiwn

***Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn destun archwiliad.***

Dangosir cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn i Weinidogion yn y tablau isod. Mae ffigurau'r cyflogau'n cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan y Swyddfa. Bydd pob swm cyfatebol blwyddyn-lawn yn cael ei gyfrifo net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia.

O ran Gweinidogion Tŷ'r Cyffredin, dim ond cost y taliadau gweinidogol ychwanegol a ysgwyddir gan yr adrannau; bydd y cyflog ar gyfer gwasanaethu fel AS (£79,468 o 1 Ebrill 2019) a'r amrywiol lwfansau y bydd ganddynt hawl iddynt yn cael eu hysgwyddo'n ganolog. Serch hynny, mae'r trefniant ar gyfer Gweinidogion yn Nhŷ'r Arglwyddi'n wahanol oherwydd nid ydynt yn cael cyflog ond yn hytrach taliad ychwanegol, nad oes modd ei gyfrifo ar wahân i'w cyflogau fel Gweinidogion. Telir cyfanswm y taliadau hyn, yn ogystal â'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt gan yr Adran ac felly fe'u dangosir yn llawn yn y ffigurau isod.

## Buddion ar ffurf nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion ar ffurf nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan yr Adran ac y mae Cyllid a Thollau EM yn eu trin fel enillion trethadwy. Ni chafodd unrhyw Weinidog yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru fuddion ar ffurf nwyddau yn 2019-20 na 2018-19.

## Taliadau (cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)

| Cyfanswm unigol y taliadau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Cyflog (£) | | Buddion mewn Nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (i'r 1000 agosaf)[1] | | Cyfanswm (i'r 1,000 agosaf) | |
| | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol o 16 Rhagfyr 2019† | 18,817 | n/a | nil | n/a | 4,000 | n/a | 23,000 | n/a |
| Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol hyd at 6 Tachwedd 2019†† | 57,379 | 67,505 | nil | nil | 12,000 | 15,000 | 69,000 | 83,000 |
| David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 16 Rhagfyr 2019††† | nil | n/a | nil | n/a | nil | n/a | nil | n/a |
| Kevin Foster AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 4 Ebrill 2019 hyd at 16 Rhagfyr 2019†††† | nil | n/a | nil | n/a | nil | n/a | nil | n/a |
| Nigel Adams AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 5 Tachwedd 2018 hyd at 3 Ebrill 2019††††† | nil | nil | nil | nil | nil | nil | nil | nil |
| Mims Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 19 Gorffennaf 2018 hyd at 5 Tachwedd 2018) †††††† | n/a | nil | n/a | nil | n/a | nil | n/a | nil |
| Stuart Andrew AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 19 Gorffennaf 2018) ††††††† | n/a | nil | n/a | nil | n/a | nil | n/a | nil |
| Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol hyd at 26 Gorffennaf 2019†††††††† | nil | nil | nil | nil | nil | nil | nil | nil |

**Nodiadau i'r tabl:**

1. Mae gwerth y buddion pensiwn cronedig yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo fel (y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaethpwyd gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

† Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU, ar 16 Rhagfyr 2019, penodwyd y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS yn ysgrifennydd Gwladol Cymru. Roedd ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2019-20 yn y rôl hon yn £67,505. Nid oedd unrhyw un yn dal swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng y 6ed o Dachwedd a'r Etholiad Cyffredinol.

††† Ar 6 Tachwedd 2019, ymddiswyddodd y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns o'i swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae cyfanswm ei gyflog am 2019-20 yn cynnwys taliad terfynu o £16,876. Roedd y cyflog cyfwerth ag amser llawn yn y rôl hon yn £67,505.

†††† Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU, ar 16 Rhagfyr 2019, penodwyd David TC Davies yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Kevin Foster AS.

††††† Ar 4 Ebrill 2019, penodwyd Kevin Foster AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Nigel Adams AS a ymddiswyddodd o'r rôl hon ar 3 Ebrill 2019.

†††††† Ar 5 Tachwedd 2018, yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet penodwyd Nigel Adams AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Mims Davies AS.

††††††† Ar 19 Gorffennaf 2018 yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet penodwyd Mims Davies AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, gan gymryd lle Stuart Andrew AS.

†††††††† Ar 26 Gorffennaf 2019, ymddiswyddodd yr Arglwydd Bourne o'i rôl fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru.

Mae costau'r taliadau i'r ddau Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn cael eu hysgwyddo gan y Gronfa Gyfunol a Thŷ'r Arglwyddi yn y drefn honno.

| Buddion Pensiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2020 | Gwir gynnydd mewn pensiwn pan yn 65 oed | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 1 Mawrth 2020 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 1 Mawrth 2019* | Gwir gynnydd/ gostyngiad mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000 |
| Gweinidogion | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol o 16 Rhagfyr 2019 | 0 – 5 | 0 – 2.5 | 7 | n/a | 3 |
| Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol hyd at 6 Tachwedd 2019 | 5-10 | 0 – 2.5 | 69 | 57 | 6 |
| David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 16 Rhagfyr 2019 | nil | nil | nil | n/a | nil |

| Buddion Pensiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2020 | Gwir gynnydd mewn pensiwn pan yn 65 oed | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 1 Mawrth 2020 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 1 Mawrth 2019* | Gwir gynnydd/ gostyngiad mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000 |
| Gweinidogion | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Kevin Foster AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 4 Ebrill 2019 hyd at 16 Rhagfyr 2019 | nil | nil | nil | n/a | nil |
| Nigel Adams AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 3 Ebrill 2019) | nil | nil | nil | nil | nil |
| Mims Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 19 Gorffennaf 2018 hyd at 5 Tachwedd 2018) | n/a | n/a | n/a | nil | n/a |
| Stuart Andrew AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 19 Gorffennaf 2018) | n/a | n/a | n/a | nil | n/a |
| Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol hyd at 26 Gorffennaf 2019 | nil | nil | nil | nil | nil |

**Nodiadau i'r tabl:**
Mae dg yn golygu nad oedd dim gwybodaeth flaenorol wedi ei chyhoeddi.

## Pensiynau Gweinidogion

Darperir buddion pensiwn i Weinidogion drwy'r Gronfa Pensiwn Cyfrannol Seneddol (PCPF). Gwneir y cynllun dan statud ac mae'r rheolau i'w gweld yn y ddogfen Ministers' etc. Pension Scheme 2015, sydd ar gael yn http://qna.files.parliament.uk/ws-attachments/170890/original/PCPF%20MINISTERIAL%20SCHEME%20FINAL%20RULES.doc.

Caiff y Gweinidogion hynny sy'n Aelodau Seneddol gronni pensiwn AS hefyd o dan y PCPF (nid yw manylion y rhain yn yr adroddiad hwn). Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i ASau ym mis Mai 2015, ond mae gan aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2013 warchodaeth drosiannol er mwyn iddynt aros yng nghynllun pensiwn cyflog terfynol blaenorol ASau.

Mae buddion i Weinidogion yn daladwy adeg oedran Pensiwn y Wladwriaeth o dan gynllun 2015. Bydd pensiynau'n cael eu hailwerthuso bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chynyddu Pensiynau cyn ymddeol ac wedyn. Y gyfradd gyfrannu o fis Mai 2015 yw 11.1% a'r gyfradd gronni yw 1.775% o'r enillion pensiynadwy.

Mae'r ffigur a ddangosir ar gyfer gwerth pensiynau'n cynnwys cyfanswm y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod o dan gynlluniau pensiwn Gweinidogion cyn 2015 ac ar ôl 2015.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg benodol ac sydd wedi'i asesu can actiwari. Buddion cronnus yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn dilynol i'r cymar sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo buddion y pensiwn y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae ffigurau'r pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni yn sgil cyfanswm ei wasanaeth fel Gweinidog, nid dim ond yn ystod ei swydd gyfredol fel Gweinidog. Bydd CETVs yn cael eu cyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac ni fyddant yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ddarpar ostyngiad i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd rhywun yn codi ei bensiwn.

## Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Dyma'r elfen o'r cynnydd yn y pensiwn cronnus y mae'r Trysorlys yn ei hariannu. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y Gweinidog. Mae'n cael ei chyfrifo drwy ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cyflogau a hawliau pensiwn Aelodau'r Bwrdd

### *Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn destun archwiliad.*

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros; tâl neu fonysau yn seiliedig ar berfformiad; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall sy'n destun trethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan y Swyddfa ac a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Mae ffigurau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan yr Adran, tra bod ffigurau cyfatebol ar gyfer blwyddyn gyfan yn cael eu cyfrif heb lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Mae bonysau yn seiliedig ar lefel perfformiad a gyrhaeddwyd, ac fe'i rhoddir fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau a gofnodir yn ystod 2019-20 yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod 2018-19 ac mae'r bonysau cymharol a gofnodir ar gyfer 2018-19 yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod 2017-18.

Cefnogwyd Aelodau'r Bwrdd gan y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Dangosir cyflogau, bonysau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn i Aelodau o'r Bwrdd yn y tablau isod:-

| Cyfanswm unigol y taliadau | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion | Cyflog (£'000) | | Taliadau bonws (£,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[2] | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| Glynne Jones CBE, Cyfarwyddwr | 90-95 | 90-95 | dim | dim | dim | dim | 38,000 | 43,000 | 130-135 | 130-135 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 70-75 | 70-75 | dim | dim | dim | dim | 33,000 | 27,000 | 105-110 | 95-100 |
| Ashok Ahir, Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu (o 2 Gorffennaf 2018) † | 75-80 | 55-60 | dim | dim | dim | dim | 30,000 | 22,000 | 105-110 | 75-80 |
| Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, rhannu swydd â Kate Starkey o 10 Mehefin 2019)†† | 30-35 | dg | dim | dg | dim | dg | 75,000 | dg | 105-110 | dg |
| Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi – rhannu swydd â Louise Parry o 10 Mehefin 2019) †† | 30-35 | dg | dim | dg | dim | dg | 25,000 | dg | 55-60 | dg |

| Cyfanswm unigol y taliadau | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion | Cyflog (£'000) | | Taliadau bonws (£,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[2] | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| Robin Healey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (hyd at 31 Ionawr 2019) ††† | dg | 55-60 | dg | 5-10 | dg | dim | dg | 29,000 | dg | 95-100 |
| Charlotte Cantle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (o 23 Medi 2019) †††† | 40-45 | dg | dim | dg | dim | dg | 17,000 | dg | 55-60 | dg |
| Michael Dynan-Oakley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at 1 Medi 2019) ††††† | 35-40 | 80-85 | dim | dim | dim | dim | 35,000 | 17,000 | 50-55 | 95-100 |

**Nodiadau i'r tabl:**

2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn drwy gyfrifo (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) ynghyd â'r (gwir gynnydd mewn unrhyw swm lwmp) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

† Ymunodd Ashok Ahir â'r Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu ar 2 Gorffennaf 2018. Mae ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2018-19 yn yr ystod rhwng £70k a £75k.

†† Ymunodd Louise Parry a Kate Starkey â'r Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi ar 10 Mehefin 2019. Mae eu cyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2019-20 yn yr ystod rhwng £75k a £80k

††† Gadawodd Robin Healey yr Adran ar 31 Ionawr 2019. Mae ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2018-19 yn yr ystod rhwng £70k a £75k.

††††† Ymunodd Charlotte Cantle â'r Adran fel Dirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat ar 23 Medi 2019. Mae ar fenthyg o Swyddfa'r Cabinet ac mae ei chyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2019-20 yn yr ystod rhwng £80-85k.

††††† Gadawodd Michael Dynan-Oakley yr Adran ar 1 Medi 2019. Mae ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2019-20 yn yr ystod rhwng £85k a £90k.

Mae budd-daliadau pensiwn 2018-19 ar gyfer Michael Dynan-Oakley wedi cael eu hail-gyfrifo gan y Darparwyr Pensiwn oherwydd newid i gyflog pensiynadwy drwy'r prosiect glanhau data. Yn sgil yr ail-gyfrifo, mae budd-daliadau pensiwn 2018-19 a'r un cyfanswm tâl wedi newid o £157,000 i £35,000 ac o £230k – £235k i £95k – £100k.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Taliadau | Cyflog heb gynnwys bonysau (yn cynnwys lwfansau) (£'000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (£'000) | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 | 2019-20 | 2018-19 |
| Alison White, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (o 1 Gorffennaf 2018) * | 10-15 | 5-10 | dim | dg | 10-15 | 5-10 |
| Isobel Garner, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (hyd at 30 Mehefin 2018) ** | dg | 0-5 | dg | dim | dg | 0-5 |
| Peter Umbleja, Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Ebrill 2019) | 5-10 | dg | dim | dg | 5-10 | dg |
| Tom Jones, Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 31 Mawrth 2019) | dg | 5-10 | dg | dim | dg | 5-10 |

**Nodiadau i'r tabl:**

* Penodwyd Alison White yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar 1 Gorffennaf 2018. Roedd ei chyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2018-19 yn yr ystod rhwng £10k a £15k.

** Ymddiswyddodd Isobel Garner o'r rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar 30 Mehefin 2018. Roedd ei chyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2018-19 yn yr ystod rhwng £10k a £15k.

## Buddiannau Pensiwn

| Uwch reolwyr | Pensiwn cronedig a thaliad unswm cysylltiedig ag oed pensiwn ar 31 Mawrth 2020 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a thaliad unswm cysylltiedig ag oed pensiwn ar 31 Mawrth 2020 | CETV ar 31 Mawrth 2020 | CETV ar 31 Mawrth 2019 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Glynne Jones CBE, Cyfarwyddwr | 40 – 45 a thaliad unswm o 90 – 95 | 0 – 2.5 a thaliad unswm o 0 – 2.5 | 770 | 711 | 22 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 25 – 30 a thaliad unswm o 65 – 70 | 0 – 2.5 a thaliad unswm o 0 – 2.5 | 559 | 511 | 21 |
| Ashok Ahir, Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu | 0 – 5 | 0 – 2.5 | 37 | 15 | 16 |
| Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, (o 10 Mehefin 2019) | 10 – 15 a thaliad unswm o 30 – 35 | 2.5 – 5 a thaliad unswm o 7.5 – 10 | 211 | 152 | 51 |
| Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (10 Mehefin 2019) | 15 – 20 | 0 – 2.5 | 246 | 223 | 13 |
| Robin Healey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (hyd at 31 Ionawr 2019) | dg | n/a | n/a | 277 | n/a |
| Charlotte Cantle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (o 23 Medi 2019) | 5 – 10 | 0 – 2.5 | 53 | 45 | 5 |
| Michael Dynan-Oakley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat (hyd at 1 Medi 2019)* | 30 – 35 a thaliad unswm o 80 – 85 | 0 – 2.5 a thaliad unswm o 0 – 2.5 | 656 | 639 | 11 |

Nodiadau i'r tabl:

* Mae CETV 2018-19 ar gyfer Dynan-Oakley wedi cael ei ail-gyfrifo gan y Darparwyr Pensiwn oherwydd newid i gyflog pensiynadwy drwy'r prosiect glanhau data. Yn sgil yr ail-gyfrifo, mae'r CETV ar yr 31ain o Fawrth 2019 wedi newid o 757 i 639.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae'r buddion pensiwn yn cael eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladol yr aelod (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw bu i'r holl weision sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai oedd eisoes yn y gwasanaeth ymuno ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 yn darparu buddion yn seiliedig ar gyflog terfynol (**clasurol, premiwm neu glasurol plws**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion yn seiliedig ar yrfa gyflawn (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae costau buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos** ac **alpha** yn cael eu codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiwn. Roedd aelodau presennol PCSPS oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 blynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn symud i **alpha** ryw ben rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion yr holl aelodau sy'n symud i **alpha** yn cael eu 'bancio', a bydd y rhai sydd â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a roddir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn PCSPS neu **alpha** – fel bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion mewn PCSPS ac alpha, mae'r ffigur a roddir yn werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2022 ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'pryniant arian' gyda chyfraniadau cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, mae lwmp swm sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Mae buddion **premiwm** yn crynodi ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun **clasurol**, ni cheir lwmp swm awtomatig, ac mae **clasurol plws** yn ei hanfod yn gyfuniad o fuddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 a gyfrifir yn fras fel yn achos **clasurol**, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 a gyfrifir fel yn achos **premiwm**. Yn **nuvos** mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael credyd o 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn cynllun honno, a bydd y pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiwn. Mae buddion yn **alpha** yn cynyddu mewn ffordd debyg i **nuvos**, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio pensiwn (mudo) am lwmp swm hyd at y cyfyngiadau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid

oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol hyd at 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% yn ychwanegol o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am gostau sicrwydd buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth wrth wasanaethu ac ymddeoliad oherwydd gwaeledd).

Y pensiwn cronnus a roddir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau o **clasurol, premiwm** a **clasurol plws**, 65 ar gyfer aelodau o **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau o **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a roddir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn PCSPS neu **alpha** – fel bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion mewn PCSPS ac alpha, mae'r ffigur a roddir yn werth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

I gael mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i'r wefan yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg benodol ac sydd wedi'i asesu can actiwari. Buddion cronnus yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn dilynol i'r cymar sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo buddion y pensiwn y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae ffigurau'r pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni yn sgil cyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond yn ystod ei wasanaeth mewn uwch swydd pan fydd datgeliad yn berthnasol.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Mae CETVs yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad posibl na gwir ostyngiad i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd rhywun yn codi ei bensiwn.

## Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Dyma'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Caiff ei gyfrifo drwy ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cymarebau Tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn eu sefydliad â thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

Band tâl y cyfarwyddwr a oedd yn ennill y cyflog uchaf yn y Swyddfa ym mlwyddyn ariannol 2019-20 oedd £90-£95k (2018-19, £90-£95k). Roedd hyn 2.5 gwaith cymaint (2018-19, 2.8 gwaith cymaint) â thâl canolrif y gweithlu, sef £36,798 (2018-19, £32,720). Mae'r taliad canolrifol yn 2019-20 wedi cynyddu am sawl rheswm:

- Dyfarniad cyflog staff o oddeutu 1.5% yn gyffredinol;
- Llenwi swyddi gwag; a
- Recriwtio staff newydd o Adrannau eraill y Llywodraeth ar gyfraddau tâl uwch ac mewn lleoliad gwahanol i'w rhagflaenwyr

Yn 2019-20, ni gafodd unrhyw weithiwr (2018-19, dim) dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn ennill y cyflog uchaf. Roedd y taliadau'n amrywio o £8,300 i £93,000 (2018-19 £8,300 i £91,000).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau na gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod.

## Iawndal am golli swydd

Ni adawodd yr un o'r staff y Swyddfa dan delerau Ymadael yn Wirfoddol yn 2019-20 na 2018-19.

## Gweinidogion

Gadawodd y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS o dan delerau diswyddo ar 6 Tachwedd 2019 a chafodd daliad diswyddo o £16,876. Ni chafodd unrhyw daliadau diswyddo eu gwneud yn 2018-19.

# Adroddiad Staff

*Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn destun archwiliad.*

## Costau Staff

Dangosir gwariant y Swyddfa ar staff yn ystod 2019-20 yn y tabl isod: -

| | | | | | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir yn Barhol a Secondeion I mewn | Eraill | Gweindogion | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfolgau wythnosol a misol | 2,112 | 207 | 76 | 123 | 2,518 | 2,455 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 174 | – | 7 | 14 | 195 | 218 |
| Costau penswim eraill | 444 | – | – | 20 | 464 | 399 |
| **Cyfanswm y Costau** | **2,730** | **207** | **83** | **157** | **3,177** | **3,072** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nad yw'n cael ei ariannu, ond nid yw'r Swyddfa yn gallu nodi ei chyfran hi o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016. Mae'r manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/scheme-valuations/

Ar gyfer 2019-20 roedd cyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau, gwerth £464k (2018-19: £399k) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd rhwng 26.6% a 30.3% (2018-19: rhwng 20% a 24.5%) o'r cyflog pensiynadwy, wedi'i seilio ar fandiau cyflog. Bydd actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl prisio'r cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n codi mewn gwirionedd, ac roeddent yn adlewyrchu'r profiad a gafwyd o'r cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau gan y cyflogwr gwerth £0 (2018-19: £0) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% (2018-19: 8.0% i 14.75%) o'r cyflog pensiynadwy. Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3.0% o'r cyflog pensiynadwy.

At hynny, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr gyfwerth â 0.8% o'r cyflog pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS er mwyn talu am gost darparu buddion lwmp swm yn y dyfodol os bydd gweithiwr sydd yn y cynllun PCSPS yn marw yn ystod ei wasanaeth neu'n ymddeol oherwydd gwaeledd.

Y cyfraniadau i ddarparwyr pensiwn partneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd oedd Dim. (2018-19: £Dim).

Ni fu unrhyw ymddeoliad o ganlyniad i waeledd yn ystod 2019-20 (2018-19: Dim).

## Niferoedd Staff


Dangosir nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod:

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| Staff parhaol | 41 | 45 |
| Eraill | 6 | 4 |
| Gweinidogion | 2 | 2 |
| Cynghorwyr Arbennig | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **50** | **53** |

Nid yw'r Swyddfa erioed wedi cyflogi neb ei hun. Rydym yn dal i gael gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n neilltuo staff i ni. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dilyn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ac mae staff yn cael eu recriwtio ar ein rhan drwy gystadleuaeth deg ac agored. Yn y gorffennol rydym wedi bod yn llawer mwy dibynnol ar fenthyciadau gan adrannau eraill y llywodraeth, ond mae'r trefniant hwn yn berthnasol i lai na phum aelod o'r staff erbyn hyn.


Roedd gan y Swyddfa 52 aelod o staff erbyn diwedd cyfnod adrodd blwyddyn ariannol 2019-20. Fodd bynnag, fel y dengys y siart isod, ni welwyd y cyfraddau staffio llawn mewn unrhyw fis er bod cyfartaledd o 89% mewn lefelau staffio yn ystod y flwyddyn.

Lefelau Staffo 2019/20



Ceir dadansoddiad o'r staff yn ôl graddfeydd y gwasanaeth sifil yn y siart isod:

% Gradd y Staff – 2019-20




Ar gyfartaledd, roedd 46% o'r staff wedi'u lleoli yn ein Swyddfa yng Nghaerdydd a 54% yn Llundain.

***Adrodd am gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael***

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael y Gwasanaeth Sifil yn 2019-20 na 2018-19.

***Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Offerynnau Statudol 328)***

Nid yw Rheoliadau Amser Cyfleuster Undebau Llafur yn gymwys i'r Swyddfa gan nad ydym yn gyflogwr a chan fod gennym lai na 49 o staff cyfwerth ag amser llawn. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel y cyflogwr yn darparu cynrychiolaeth undeb llafur i'r staff.


***Uwch Wasanaeth Sifil***


Ar 31 Mawrth 2020 roedd saith o bobl yn llenwi 6 swydd barhaol i weision sifil yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys un cyfreithiwr sydd ar secondiad o Wasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth.

| Staff mewn swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 20120 | Mawrth |
|---|---|---|
| Cyfran y merched | 57% | 20% |
| Cyfran y merched ar fand Cyflog 2 ac uwch | 0% | 0% |
| Cyfran y staff a ddatgelodd eu bod o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) | 17% | 20% |
| Cyfran y staff a ddatgelodd eu bod yn Anabl | 0% | 0% |


### *Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*

Mae gwybodaeth ynglŷn â nodweddion personol amrywiol yn cael eu monitro drwy system Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder lle mae staff yn cael eu hannog i wneud datganiadau personol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r data a oedd ar gael ar 31 Mawrth 2020 ynglŷn â rhywedd, ethnigrwydd, anabledd ac oedran i'w gweld yn y siartiau isod:




**Cffraddau Adrodd am Ethnigrwydd Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 31/03/2020**




**Monitro Anabledd ar 31/03/2020**





O ran adrodd am Gyfeiriadedd Rhywiol a Chrefydd a Chred, gan fod rhai o'r categorïau'n ymwneud â llai na phum aelod o'r staff, ni fydd yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel y cyflogwr yn defnyddio ceisiadau gyda'r enwau wedi'u tynnu ohonynt fel rhan o'i phroses recriwtio er mwyn lleihau rhagfarn ddiarwybod wrth lunio rhestr fer. Mae'r Swyddfa wedi cymryd rhan mewn cynllun peilot gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod y flwyddyn adrodd hon, i wneud aelodaeth panelau cyfweld yn fwy amrywiol. Fodd bynnag, am y tro cyntaf mewn degawd, mae dynion yn llenwi mwy o swyddi na merched.

Mae'r tabl isod yn dangos proffil oedran staff sy'n gweithio yn y swyddfa.

Proffil oedran ar gyfer staff OSSW fel yn 31/03/2020




**Cyflogi pobl anabl**

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd ac mae'n cynnig y Cynllun Gwarantu Cyfweliad i ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn anabl. Gan fod y Swyddfa'n cydymffurfio â chynlluniau recriwtio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym hefyd yn mabwysiadu'r safonau arferion gorau hyn.

***Materion eraill yn ymwneud ag Iechyd a Llesiant***

Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gollwyd o ganlyniad i salwch ym mlwyddyn galendr 2019 oedd 4.85. Mae hyn yn sylweddol uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol ac mae'n ganlyniad i absenoldeb tymor hir oherwydd cyflyrau meddygol difrifol. Gwelir hyn yn y data nad yw 85% wedi cofnodi unrhyw absenoldeb yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r Swyddfa'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau Llesiant a drefnir ar y cyd â Grŵp Llywodraethu'r DU ac mae'n awr yn cael awgrymiadau wythnosol ar lesiant

***Gwariant ar wasanaethau ymgynghori a staff dros dro***

Y gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 2019-20 oedd £6,600 (2018-19 £35,000).

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro yn 2010-20 oedd £206,865 (2018-19 £86,229). Defnyddiodd y Swyddfa staff dros dro i lenwi yn lle staff ar absenoldeb mamolaeth ac mewn swyddi gwag.

***Penodiadau oddi ar y Gyflogres***

Yn 2019-20 nid oedd gan y Swyddfa unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres a oedd yn costio mwy na £220 y diwrnod ac am chwe mis neu fwy.

***Y Gymraeg***

Mae gan y Swyddfa ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun ac mae'n adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar berfformiad yn erbyn y targedau a nodwyd yn y Cynllun. Rydym yn sicrhau bod cyfran resymol o'r staff sy'n cael eu recriwtio yn gallu gweithio'n ddwyieithog. Mae'r staff hyn yn gallu ymateb i ymholiadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, pan fydd angen.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd, ac rydym yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r staff yn unol â hynny. Cynhelir archwiliad o sgiliau staff yr Adran yn flynyddol a dyma'r sail ar gyfer cynllunio ein gweithlu ac olyniaeth. Ar 31 Mawrth 2020: -

- roedd 15% o'r staff yn asesu eu hunain fel rhai sy'n gallu gwrando, darllen a siarad Cymraeg yn rhugl, ac roedd 12% hefyd yn ystyried eu hunain fel rhai sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg yn rhugl;

- roedd 4% o staff yn asesu eu hunain fel rhai â sgiliau uwch mewn gwrando, darllen a siarad Cymraeg, gyda 2% o'r aelodau hyn o'r staff hefyd yn barnu fod ganddynt sgiliau uwch mewn Cymraeg ysgrifenedig;

- roedd 2% o staff yn asesu eu hunain fel rhai â sgiliau canolraddol mewn gwrando, darllen a siarad Cymraeg, gyda dealltwriaeth dysgwr mewn Cymraeg ysgrifenedig;

- roedd 30% o'r staff sy'n weddill yn asesu eu hunain fel rhai â sgiliau sylfaenol neu ddysgwr yn y gwahanol agweddau ar y Gymraeg;

- roedd 49% o'r staff yn asesu eu hunain fel ddim gallu yn y Gymraeg.

## Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio

**Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn destun archwiliad.**

# Datganiad Cyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr AdroddiadauAriannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol.

Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig wedi'u harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin.

Mae'r SoPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario o'i gymharu ag Amcangyfrif y Cyflenwad. Cyflenwad yw'r sefyllfa ariannol (ar gyfer dibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (sydd wedi'i dynnu o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae'r Senedd wedi rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi cyflenwad, ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Petai endid yn mynd dros y terfynau a osodwyd yn Amcangyfrif y Cyflenwad, sef y terfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn amodol.

Mae fformat y SoPS yn adlewyrchu Amcangyfrifon y Cyflenwad a gyhoeddwyd ar gov.uk, er mwyn galluogi tynnu cymhariaeth rhwng yr hyn mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SoPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, yr arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd alldro yn cyd-fynd yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro fesul llinell Amcangyfrif, sy'n darparu dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i gysylltu SoPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

## Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2019-20

| | | 2019-20 | | | | 2019-20 | | 2019-20 | | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif | | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Pleidleisiwyd | Heb ei bleidleisio | Cyfanswm | Pleidleisiwyd | Heb ei bleidleisio | Cyfanswm | Pleidleisiwyd | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 4,681 | – | 4,681 | 5,082 | – | 5,082 | 401 | 401 | 4,633 |
| Cyfalaf | 1.2 | 45 | – | 45 | 50 | – | 50 | 5 | 5 | 18 |
| **Cyfanswm** | | 4,726 | – | 4,726 | 5,132 | – | 5,132 | 406 | 406 | 4,651 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 243 | – | 243 | 243 | – | 243 | – | – | 7 |
| Cyfalaf | 1.2 | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm** | | **243** | **–** | **243** | **243** | **–** | **243** | **–** | **–** | **7** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | | **4,924** | **–** | **4,924** | 5,325 | – | 5,325 | 401 | 401 | 4,633 |
| Cyfalaf | | **45** | **–** | **45** | 50 | – | 50 | 5 | 5 | 18 |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyllideb** | | **4,969** | **–** | **4,969** | **5,375** | **–** | **5,375** | **406** | **406** | **4,651** |
| **Gwariant Anghyllidebol** | | **15,337,546** | – | 15,337,546 | 15,907,633 | – | 15,907,633 | 570,087 | 570,087 | 14,582,040 |
| **Cyfanswm y Gyllideb ac Anghyllidebol** | | **15,342,515** | **–** | **15,342,515** | **15,913,008** | **–** | **15,913,008** | **570,493** | **570,493** | **14,586,698** |

Y ffigurau yn y blychau sydd wedi'u hamlinellu gyda llinell drwchus yw'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Edrychwch ar lawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk, i gael rhagor o fanylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

## Gofyniad arian parod net 2019-20 holl ffigurau wedi'u cyflwyno mewn £000au

| Eitem | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbediad/(dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | **3** | **15,342,040** | **15,912,564** | **570,524** | **14,586,496** |

## Costau gweinyddu 2019-20

| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif: arbediad/(dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddu** | **1.1** | **4,486** | **4,592** | **106** | **4,450** |

Er nad yw'n derfyn y pleidleisir arno ar wahân, bydd unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidleisio swm dros ben.

# Nodiadau i'r Datganiad Cyflenwad Seneddol 2019-20

## SOPS1. Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif

### SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro fesul llinell Amcangyfrif

| | Adnoddau Alldro | | | | | | | Amcangyfrif | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | Rhaglen | | | | | |
| Math o Wariant (Adnoddau) | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net | | Cyfanswm | Trosglwyddiad | Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbedion (dros ben) | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro Cyfanswm 2018-19 |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a Bleidleisiwyd** | | | | | | | | | | | | |
| A – Swyddfa Cymru | 4,598 | (112) | 4,486 | 195 | – | 195 | 4,681 | 5,082 | – | 5,082 | 401 | 4,633 |
| **Cyfanswm y DEL a bleidleisiwyd** | **4,598** | **(112)** | **4,486** | **195** | **–** | **195** | **4,681** | **5,082** | **–** | **5,082** | **401** | **4,633** |
| **Cyfanswm y gwariant yn y DEL** | **4,598** | **(112)** | **4,486** | **195** | **–** | **195** | **4,681** | **5,082** | **–** | **5,082** | **401** | **4,633** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | | | |
| B – Darpariaethau | 243 | – | 243 | – | – | – | 243 | 243 | – | 243 | – | 7 |
| **Cyfanswm yr AME a bleidleisiwyd** | **243** | **–** | **243** | **–** | **–** | **–** | **243** | **243** | **–** | **243** | **–** | **7** |
| **Cyfanswm y gwariant yn yr AME** | **243** | **–** | **243** | **–** | **–** | **–** | **243** | **243** | **–** | **243** | **–** | **7** |
| **Gwariant Anghyllidebol** | | | | | | | | | | | | |
| C – Grant yn daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 13,278,546 | – | 13,278,546 | 13,278,546 | 13,848,633 | – | 13,848,633 | 570,087 | 14,582,040 |
| D – Talu Cyfraddau Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 2,059,000 | – | 2,059,000 | 2,059,000 | 2,059,000 | – | 2,059,000 | – | – |
| **Cyfanswm y Gwariant Anghyllidebol** | **–** | **–** | **–** | **15,337,546** | **–** | **15,337,546** | **15,337,546** | **15,907,633** | **–** | **15,907,633** | **570,087** | **14,582,040** |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **4,841** | **(112)** | **4,729** | **15,337,741** | **–** | **15,337,741** | **15,342,470** | **15,912,958** | **–** | **15,912,958** | **570,488** | **14,586,680** |

# SOPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul llinell Amcangyfrif

| | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif o'r arbedion (dros ben) | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o Wariant (Cyfalaf) | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau | | |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a Bleidleisiwyd** | | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 45 | – | 45 | 50 | – | 50 | 5 | 18 |
| **Cyfanswm y DEL a Bleidleisiwyd** | **45** | **–** | **45** | **50** | **–** | **50** | **5** | **18** |
| **Cyfanswm y gwariant yn y DEL** | **45** | **–** | **45** | **50** | **–** | **50** | **5** | **18** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **45** | **–** | **45** | **50** | **–** | **50** | **5** | **18** |

Mae'r colofnau cyfanswm Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw ailddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon heb fod angen awdurdod seneddol (am nad yw'r Senedd yn pleidleisio i lefel manyldeb o'r fath ac yn dirprwyo i Drysorlys EM), mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn Llawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae'r golofn alldro o'i gymharu ag amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae'r cyfanswm amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi cael ei gynnwys fel bod defnyddwyr yn gallu cysylltu'r amcangyfrif yn ôl â'r Amcangyfrifon a gyflwynwyd gerbron y Senedd.

## SOPS2 Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net

| | SoPS Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Y Flwyddyn Flaenorol Cyfanswm Alldro 2018-19 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau** | 1.1 | | |
| Cyllideb | | 4,924 | 4,640 |
| Anghyllidebol | | 13,278,546 | 14,582,040 |
| **Cyfanswm** | | **13,283,470** | **14,586,680** |
| **Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr** | SOCNE | **13,283,470** | **14,586,680** |

# SOPS3 Cysoni'r Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

| Eitem | SoPS Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Cyfanswm alldro | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbediad/(dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro Adnoddau** | 1.1 | **15,342,470** | **15,912,958** | **570,488** |
| **Cyfanswm alldro Cyfalaf** | 1.2 | **45** | **50** | **5** |
| *Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisiant | | (157) | (170) | (13) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | | (243) | (243) | – |
| Darpariaeth Adrannol heb ei Dyrannu | | – | – | – |
| Gwariant cyfalaf a gefnogir (refeniw) | | – | – | – |
| Addasiadau'r Cyfnod Blaenorol | | – | – | – |
| Eitemau anariannol eraill | | (31) | (31) | – |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:* | | | | |
| Croniadau cyfalaf | | – | – | – |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn stoc | | – | – | – |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyni-adwy | | (24) | – | 24 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | | (20) | – | 20 |
| Defnyddio darpariaethau | | – | – | – |
| Cyfanswm | | (475) | (444) | 31 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **15,342,040** | **15,912,564** | **570,524** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, ac nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf â'r gofyniad arian parod net.

# SOPS4 Swm o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

## SOPS4.1 Dadansoddiad o'r Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ychwanegol at incwm a gedwir gan yr adran mae'r incwm a ganlyn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.(derbyniadau arian parod wedi'u dangos mewn print italig).

| Eitem | Alldro | | Cyn Blwyddyn 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|
| | Croniadau | Sail arian parod | Croniadau | Sail arian parod |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm y tu allan i ffiniau'r Amcangyfrif | | | | |
| Blaendaliadau Etholiad y Cynulliad a Gollwyd | – | – | – | – |
| **Cyfanswm yr Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | – | – | – | – |

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru pan oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif bartner. Y symiau a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi'u heithrio o'r datganiadau ariannol hyn) yw:

Dangosir yr incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y tabl isod.

| | Alldro Cyfanswm | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr | 47,626 | 17,448 |
| Tai Cymru | 11 | 6 |
| Llog Banc | 41 | – |
| Arall | 8 | – |
| **Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **47,686** | **17,454** |
| Balans a ddelid ar ddechrau'r flwyddyn | – | – |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 47,686 | 17,454 |
| Balansau a ddelid ar ymddiriedaeth ddiwedd y flwyddyn | – | – |

Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020 oedd:

| | Alldro Cyfanswm | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2018-19 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o 2018-19 | | 17,454 |
| Incwm o 2019-20 | 47,686 | |
| | **47,686** | **17,454** |

## 3. Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

### 3.1 Colledion a Thaliadau Arbennig

Nid yw Swyddfa Cymru wedi colli dim na gwneud dim taliadau arbennig yn 2019-20 (2018-19 Dim).

### 3.2 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Pell

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol pell.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**8th Gorffennaf 2020**

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DŶ'R CYFFREDIN

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae datganiadau ariannol Swyddfa Cymru'n cynnwys: y Datganiad am Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am y Llif Arian Parod, y Datganiad am Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad am y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, ynghyd â'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion yr Adran ar 31 Mawrth 2020 a gwariant gweithredol net yr Adran ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw, ac

- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys ei Mawrhydi a gyhoeddwyd dan y ddeddf.

## Pwysleisio mater

Heb amodi fy marn, rwyf yn tynnu sylw at y datgeliadau a wnaed yn nodyn 1.16 i'r datganiadau ariannol yng nghyswllt yr ansicrwydd perthnasol ym mhrisiad eiddo Tŷ Gwydyr.

Fel y nodir yn y nodiadau hyn, gan bod COVID-19 yn effeithio ar weithgarwch y farchnad mewn llawer o sectorau, ac yn unol â chanllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), roedd prisiad Tŷ Gwydyr ar 31 Mawrth 2020 yn cynnwys cymal 'ansicrwydd perthnasol'. Mae hyn yn golygu y dylid atodi mwy o rybudd, ac felly, llai o sicrwydd wrth y prisiad nag a fyddai'n cael ei atodi fel arfer.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad am y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'r alldro o'i gymharu â chyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 mewn modd priodol, ac mae'n dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn; ac

- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar Swyddfa Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chasglu'n ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw defnydd Swyddfa Cymru o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

- nid yw Swyddfa Cymru wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed y rheiny wedi'u hachosi gan dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU) wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn

rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU), rwyf yn defnyddio crebwyll proffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- canfod ac yn asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, yn dylunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol sy'n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o wall, gan bod twyll yn gallu golygu cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, anwiredd, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.

- dod i ddeall y rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid er mwyn mynegi barn ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa Cymru.

- gwerthuso pa mor briodol yw'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi cael eu defnyddio a pha mor resymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wnaed gan reolwyr.

- gwerthuso'r modd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol, eu strwythur a'u cynnwys ar y cyfan, gan gynnwys y datgeliadau, a pha un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli›r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n rhoi darlun teg.

- llunio casgliad ynghylch pa mor briodol yw defnydd Swyddfa Cymru o sail gyfrifyddu busnes gweithredol ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gasglwyd, pa un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Cymru i barhau fel busnes gweithredol. Os byddaf yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i Swyddfa Cymru roi'r gorau i barhau fel busnes gweithredol.

Rwyf yn cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad am y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'r alldro o'i gymharu â chyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt ar gyfer y flwyddyn mewn modd priodol, ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn. Y cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt yw'r Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Di-Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net. Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y

gwariant a'r incwm sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio yn yr adroddiad hwnnw, y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth honno. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â›r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais yn yr archwiliad neu›n ymddangos fel arall fel pe bai wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;

- yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth am Swyddfa Cymru a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu nid oes ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Swyddfa Cymru yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies** **13th Gorffennaf**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 3 Datganiadau Ariannol

## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchir ac a ddefnyddir ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill nad oes modd eto'u cydnabod yn incwm neu wariant.

| | Nodyn | 2019-20 Adran Graidd £000 | 2018-19 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | (112) | (100) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | (112) | (100) |
| Costau Staff | 2 | 3,177 | 3,072 |
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau | 2 | 519 | 453 |
| Dibrisiant | 2 | 157 | 141 |
| Gwariant gweithredu arall | 2 | 1,145 | 1,032 |
| Payover I Gronfa Gyfunol Cymru | 2 | 15,337,546 | 14,582,040 |
| Treuliau Arglwydd Raglawiaid | 2 | 38 | 42 |
| Llog NLF yn daladwy | | 2,394 | 1,625 |
| Llog NLF yn dderbyniadwy | | (2,394) | (1,625) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **15,342,582** | **14,586,780** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **15,342,470** | **14,586,680** |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | | | |
| **Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i'r costau gweithredu net:** | | | |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar Eiddo, Offer a Chyfarpar | | 81 | (236)) |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar Eiddo, Offer a Chyfarpar | | – | – |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar | | – | – |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | 15,342,551 | 14,586,444 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif gydran: asedau a berchnogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gweddill gwerth yr endid.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2020<br>£000 | 31 Mawrth 2019<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 5,455 | 5,648 |
| Asedau ariannol | 8 | 72,502 | 74,864 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 9 | – | 4 |
| *Cyfanswm asedau anghyfredol* | | 77,957 | 80,516 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 2,883 | 1,652 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 6 | 37 | 61 |
| *Cyfanswm asedau cyfredol* | | 2,920 | 1,713 |
| **Cyfanswm Asedau** | | **80,877** | **82,229** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 10 | (3,609) | (2,359) |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol* | | (3,609) | (2,359) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol net** | | **77,268** | **79,870** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (296) | (53) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 10 | (72,502) | (74,864) |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol* | | (72,798) | (74,917) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau** | | **4,470** | **4,953** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 612 | 975 |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 3,858 | 3,978 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | 4,470 | 4,953 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**8th Gorffennaf 2020**

## Datganiad Llifau Arian
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Mae’r Datganiad Llifau Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae’r datganiad yn dangos sut y bydd yr adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod drwy gategoreiddio llifau arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifau arian parod net sy’n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth ac i ba raddau y mae’r gweithrediadau hyn yn cael eu hariannu drwy gyfrwng incwm derbynwyr gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi’n cynrychioli i ba raddau y mae’r llifau arian i mewn ac allan wedi’u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2019-20<br>£000 | 2018-19<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOCNE | (15,342,470) | (14,586,680) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 2 | 431 | 178 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | (1,227) | (1,199) |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr* [1] | 9 | 1,251 | 1,132 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 10 | (1,112) | 65,018 |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau taladwy sy’n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy’r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr* [1] | 10 | 1,132 | (64,854) |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu*** | | **(15,341,995)** | **(14,586,405)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 5 | (45) | (91) |
| Ad-dalu benthyciadau gan gyrff eraill | 9 | 1,228 | 120 |
| Llog NLF yn daladwy | SOCNE | 2,394 | 1,625 |
| ***Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | **3,577** | **1,654** |
| **Llifau arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn Gyfredol [2] | | 15,342,016 | 14,586,525 |
| Ad-dalu benthyciadau gan yr NLF [3] | 10 | (1,228) | (120) |
| Llog NLF yn dderbyniadwy | SOCNE | (2,394) | (1,625) |
| ***Ariannu net*** | | **15,338,394** | **14,584,780** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 6 | **(24)** | **29** |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran | | 47,686 | 17,454 |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol [4] | | (47,686) | (17,454) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 6 | **(24)** | **29** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau’r cyfnod** | 6 | **61** | **32** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 6 | **37** | **61** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 73 i 90 yn rhan o’r cyfrifon hyn

1. Mae’r symudiadau’n cynnwys: balansau adrannol gyda’r Gronfa Gyfunol: a symiau taladwy sy’n gysylltiedig ag ariannu – benthyciadau’r NLF (prifswm a llog), dyledwyr cyfalaf, lesau cyllid a PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth arall.
2. Dyma’r swm a dderbyniwyd o’r Gronfa Gyfunol yng nghyswllt y flwyddyn gyfredol.
3. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau a ad-dalwyd gan endidau ar gyfer eu trosglwyddo ymlaen i’r NLF a llog a dderbyniwyd gan endidau i’w trosglwyddo i’r NLF.
4. Arian parod a dalwyd drosodd i’r Gronfa Gyfunol dan unrhyw gategori.

## Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan Swyddfa Cymru wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu'r newid yng ngwerthoedd yr asedau nad ydynt wedi cael eu cydnabod yn incwm nac yn wariant. Mae'r Gronfa Gyffredinol yn adlewyrchu cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau adran, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi'i gynrychioli gan gronfeydd cadw eraill ac eitemau ariannu.

| | Note | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £000 | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2018** | | **1,093** | **3,772** | **4,865** |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| – Tynnwyd i lawr | | 14,586,525 | – | 14,586,525 |
| – Tybiwyd | | 32 | – | 32 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 10 | (61) | – | (61) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | – | – | – |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (14,586,680) | – | (14,586,680) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Taliadau i'r Archwilydd | 2 | 30 | – | 30 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Eiddo, Offer a Chyfarpar | | – | 236 | 236 |
| – Arall | | 6 | – | 6 |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 30 | (30) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **975** | **3,978** | **4,953** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | | 975 | 3,978 | 4,953 |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| – Tynnwyd i lawr | SCF | 15,342,016 | – | 15,342,016 |
| – Tybiwyd | 10 | 61 | – | 61 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 10 | (37) | – | (37) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | – | – | – |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (15,342,470) | – | (15,342,470) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Taliadau i'r Archwilydd | 2 | 31 | – | 31 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Eiddo, Offer a Chyfarpar | | – | (81) | (81) |
| – Arall | | (3) | – | (3) |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 39 | (39) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **612** | **3,858** | **4,470** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 73 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

## 1a) Datganiad polisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2019-20 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn yr FReM yn dilyn y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddesir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os bydd yr FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, y polisi cyfrifyddu a fernir fwyaf addas i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru at ddibenion rhoi darlun gwir a theg a ddewiswyd. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Cymru wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau a ystyriwyd yn berthnasol yng nghyswllt y cyfrifon hyn.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi un datganiad sylfaenol arall. Mae'r Datganiad am y Cyflenwad Seneddol a'i nodiadau ategol yn cofnodi'r alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif o ran yr adnoddau net sy'n ofynnol a'r arian parod net sy'n ofynnol.

Arian cyfred swyddogaethol a chyflwyniadol Swyddfa Cymru yw'r Bunt Sterling Brydeinig (£).

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae Cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol sydd wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

### 1.3 Segmentau gweithredu

Ystyrir bod Swyddfa Cymru yn darparu un swyddogaeth ac, o ran adroddiadau IFRS, ystyrir ei bod yn un segment gweithredu.

### 1.4 Eiddo, offer a chyfarpar

***Sail prisio***

Mae asedau ar ffurf eiddo, offer a chyfarpar (PPE) yn cael eu nodi ar sail gwerth teg. Pan gânt eu cydnabod i ddechrau mae asedau o'r fath yn cael eu mesur ar sail cost gan gynnwys unrhyw gostau a briodolir yn uniongyrchol i'r gwaith o sicrhau eu bod mewn cyflwr sy'n gweithio.

### *Dull prisio*

Mae gan Swyddfa Cymru un ased sy'n eiddo – Tŷ Gwydyr – wedi'i gynnwys ar ei werth teg, yn ôl dehongliad FReM, ar sail prisiadau proffesiynol a wneir o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Rhwng un prisiad proffesiynol a'r nesaf, caiff gwerthoedd cario eu haddasu drwy ddefnyddio prisiadau bwrdd gwaith proffesiynol.

Gwneir y prisiadau proffesiynol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VAO) gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), sy'n cael ei alw'n 'Llyfr Coch'.

Dynodir bod Tŷ Gwydyr yn adeilad rhestredig Gradd 2* ar sail 'Defnydd Presennol' yn unol â'r Llyfr Coch, gan gymryd i ystyriaeth natur ddarfodol yr eiddo.

Bydd asedau nad ydynt yn eiddo'n cael eu cynnwys ar sail eu cost adeg eu prynu ac fe'u hailddatgenir ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio Rhifau'r Mynegai Prisiau ar gyfer a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### *Ailbrisio*

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu yn sgil ailbrisio, bydd y cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad ailbrisio ar yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn ecwiti'r Trethdalwyr.

Pan fydd swm cario ased yn gostwng (ac eithrio yn sgil lleihad parhaol), bydd y gostyngiad yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r graddau bod balans ar gyfer yr ased hwnnw. Bydd unrhyw ostyngiad pellach sy'n fwy na'r gwargedau ailbrisio'n cael eu priodoli i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net.

Bob blwyddyn, bydd y gwahaniaeth rhwng y dibrisiant sydd wedi'i seilio ar swm cario ailbrisiedig yr ased a briodolwyd i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr a'r dibrisiant sydd wedi'i seilio ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

### *Trothwy cyfalafu – asedau unigol*

Trothwy cyfalafu asedau unigol Swyddfa Cymru yw £1,000 (gan gynnwys TAW).

### *Trothwy cyfalafu – asedau wedi'u grwpio*

Mae gan Swyddfa Cymru gronfa fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi'u cyfalafu.

Bydd Swyddfa Cymru yn rhoi trothwy cyfalafu ar waith ar gyfer asedau wedi'u grwpio o £10,000 (gan gynnwys TAW).

### *Dibrisiant*

Priodolir dibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu gwerth asedau llai'r amcangyfrif o'r gwerth gweddilliol yn gyson dros eu hoes fuddiol yn ôl yr amcangyfrifon neu ar gyfer asedau sydd dan brydles, dros oes y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Bydd oes fuddiol asedau neu gategorïau o asedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu trafod gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod goblygiadau cyllidebu wedi'u hystyried yn briodol. Os cytunir ar newid i oes ased, bydd yr ased yn cael ei dibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei hoes yn unol â'r asesiad. Bydd y dibrisio'n cychwyn yn y mis ar ôl caffael ased anghyfredol ar gyfer tir, adeiladau ac anheddau ac yn ystod y mis ar gyfer pob ased anghyfredol arall.

Amcangyfrifir oes fuddiol asedau o fewn yr ystodau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Tir ar rydd-ddaliad | Ni chaiff ei ddibrisio |
| Adeiladau ar rydd-ddaliad (gan gynnwys anheddau) | Dibrisio dros oes yr asedau (hyd at 60 mlynedd) |
| Asedau wedi'u grwpio | Amrywiol ac yn dibynnu ar y mathau o asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 3 i 15 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 3 i 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 5 i 20 mlynedd |
| Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu | Ni chânt eu dibrisio |

Bydd y gwerthoedd cario'n cael eu hadolygu ar gyfer eu lleihau os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos nad yw'r gwerth cario o bosibl yn un y gellir ei adfer. Os pennir bod gwerth ased wedi gostwng, bydd hynny'n cael ei gofnodi ar unwaith a'i ostwng i'r swm adferadwy.

### *Gwaredu asedau anghyfredol*

Bydd enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol yn cael eu pennu drwy gymharu'r elw â'r swm cario ac fe'u cydnabyddir o fewn costau Gweinyddu neu gostau'r Rhaglen, fel sy'n briodol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

Pan werthir asedau sydd wedi'u hailbrisio, bydd y symiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.5 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu

Bydd asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o fewn eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol ac ni fydd y rhain yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Ni fydd ased yn cael ei chategoreiddio'n ased sydd wrthi'n cael ei hadeiladu pan fydd yn barod i'w defnyddio. Yna, bydd ei gwerth cario'n cael ei

dynnu o'r asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Bydd y dibrisio neu'r amorteiddio wedyn yn cael ei briodoli i'r ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu datganedig.

Caiff gwariant ei gyfalafu os gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r broses o roi ased mewn cyflwr gweithredol, Os ystyrir na ellir priodoli gwariant i'r ased yna caiff ei gynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

## 1.6 Prydlesi

### *Prydlesi gweithredu*

Mae prydlesi lle bydd y risgiau a'r gwobrwyon i gyd yn eu hanfod yn rhai sy'n cael eu dal gan y prydlesydd yn cael eu categoreiddio'n brydlesi gweithredu. Bydd prydlesi gweithredu ar rent yn cael eu priodoli i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### *Trefniadau sy'n cynnwys prydles*

Wrth benderfynu a yw Swyddfa Cymru yn barti i brydles, asesir bod contractau nad ydynt ar ffurf gyfreithiol prydles ond a all gynnwys prydles o'u mewn, er enghraifft trefniadau contract allanol a chontractau cymryd-neu-dalu, yn unol â'r meini prawf a bennir gan IFRIC (Pwyllgor Deongliadau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol) 4 'Determining Whether an Arrangement Contains a Lease'. Bydd y contract yn cael ei ystyried fel petai'n brydles os yw cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol a bod y trefniant yn cyfleu hawl i ddefnyddio'r ased. Yna, asesir y trefniant o dan IAS 17 i benderfynu a yw'n cael ei gategoreiddio'n brydles cyllido ynteu'n brydles weithredu.

## 1.7 Buddsoddiadau

### *Cronfa'r Benthyciadau Gwladol (NLF)*

Bydd rhagdaliadau gan Gronfa'r Benthyciadau Gwladol (NLF) yn cael eu trin yn fenthyciadau a'u datgelu ar sail cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan yr NLF a fenthycwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Yna, fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd y Bwrdd yn 1998. Ar ôl diddymu Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a'r llog ac fe'i priodolir i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru yn cael eu hildio i'r NLF. Bydd balansau benthyciadau sydd heb eu talu'n cael eu cynnwys yn y symiau Masnach a Symiau Taladwy Eraill a Rhwymedigaethau Ariannol.

O dan Adran 122A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gall Llywodraeth Cymru fenthyg hyd at £1bn ar gyfer gwariant cyfalaf. Ym mis Mawrth 2019, gofynnodd Llywodraeth Cymru am fenthyg £65 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

## 1.8 Buddion i weithwyr

### *Gwyliau wedi'u cronni*

O dan IAS 19 'Employee Benefits', bydd gwyliau blynyddol a gwyliau hyblyg sydd heb eu cymryd yn cronni. Ni fydd bonysau am berfformiad yn cael eu cronni oherwydd ni fydd y broses arfarnu flynyddol sy'n pennu cyflogau ar sail perfformiad wedi'i chwblhau adeg paratoi'r Cyfrifon hyn.

### *Pensiynau*

Mae gweithwyr y gorffennol a'r presennol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r cynlluniau buddion diffiniedig heb eu hariannu. Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod pan fydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS y symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei phriodoli i'r PCSPS. Gyda golwg ar y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

### *Costau ymadael yn gynnar*

Nid yw Swyddfa Cymru yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r staff i gyd naill ai'n staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'n staff Llywodraeth Cymru a chyfrifoldeb yr Adrannau hyn yw talu costau ychwanegol y buddion y tu hwnt i PCSPS arferol staff sy'n ymddeol yn gynnar. O dan amgylchiadau penodol, lle bydd Swyddfa Cymru wedi cytuno i dalu'r costau, mae costau ymadael yn gynnar yn cael eu darparu'n llawn ar y pwynt y mae'r cytundeb yn eu cyfrwymo. Mae'r llifau arian sydd â'r risg wedi'u haddasu yn ôl yr amcangyfrif yn cael eu disgowntio drwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM, sef (0.5%) (2018-19:0.29%) mewn termau gwirioneddol os ydynt yn berthnasol.

## 1.9 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu sy'n ymwneud ag incwm rhentu. Mae'r incwm hwn yn cael ei gydnabod dan IAS 17 ac nid IFRS 15 (Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid).

## 1.10 Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol (CFERs)

Mae balansau CFERs yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau, oni ddywedir yn wahanol. Mae'r rhain yn berthnasol yn bennaf i symiau a dderbyniwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru sydd wedi'u dynodi gan y Trysorlys o dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Telir y symiau hyn gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a'u priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd Swyddfa Cymru hefyd yn derbyn symiau drwy adfer blaendaliadau a gollwyd o etholiadau'r Cynulliad. Bydd Swyddfa Cymru yn talu'r symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol y DU.

## 1.11 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Mae'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys gwariant ar weinyddu ar gyfer costau cynnal Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant ar raglenni ar

gyfer treuliau'r Arglwydd Raglawiaid a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 1.12 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan Swyddfa Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, ac mae'n debygol y bydd all-lif o fuddion economaidd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ar gyfer swm y rhwymedigaeth.

Mae'r darpariaethau'n adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Os bydd effaith y disgowntio'n berthnasol, bydd y darpariaethau'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth presennol, gan ddefnyddio'r wir gyfradd a bennir gan Drysorlys EM, sef 2.35% ar hyn o bryd; o'u cymharu, y cyfraddau yn 2018-19 oedd 2.6%.

## 1.13 Treth ar Werth (TAW)

Priodolir TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu fe'i cynhwysir yng nghostau pryniant wedi'u cyfalafu'r asedau anghyfredol. Lle codir treth wrth werthu neu lle bydd treth wrth brynu yn adferadwy, bydd y symiau'n cael eu datgan fel net o TAW.

## 1.14 Offerynnau ariannol

Mae IFRS 9 yn ei gwneud yn ofynnol i endid gydnabod ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn ei Ddatganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd yn dod yn barti i ddarpariaethau contract yr offeryn. Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi yn sgil contractau ar gyfer prynu a gwerthu eitemau anariannol (megis nwyddau neu wasanaethau), a drefnir yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Swyddfa Cymru, yn cael eu cydnabod pan, ac i'r graddau y bydd y perfformiad yn digwydd. Bydd pob ased a rhwymedigaeth ariannol arall yn cael ei chydnabod pan fydd Swyddfa Cymru yn dod yn barti i ddarpariaethau contract i dderbyn neu wneud taliadau arian parod. Bydd rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dadgydnabod pan fydd y contract sydd wedi arwain atynt yn cael ei setlo, ei werthu, ei ganslo neu pan fydd yn dod i ben.

### *Categoreiddio a mesur*

Yn ogystal ag Arian Parod a symiau cyfwerth ag arian parod, mae gan Swyddfa Cymru ddau gategori o asedau ariannol:

#### *Benthyciadau a symiau derbyniadwy*

Mae Benthyciadau a symiau derbyniadwy yn cynnwys symiau derbyniadwy masnach, symiau derbyniadwy eraill a benthyciadau sydd â thaliadau penodol neu bendant ac sydd heb eu rhestru mewn marchnad weithredol. Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn cael eu cydnabod yn gyntaf ar eu gwerth teg, a'u mesur wedyn ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio dull y gyfradd llog effeithiol heb gynnwys unrhyw leihad mewn gwerth. Caiff llog ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol.

Mae'r gyfradd llog effeithiol yn ffordd o gyfrifo cost ased ariannol wedi'i hamorteiddio ac o ddyrannu refeniw neu draul y llog dros y cyfnod perthnasol gan ddefnyddio'r amcangyfrif o lifau arian parod yn y dyfodol.

Mae IFRS 9 yn ei gwneud yn ofynnol i endid gynhyrchu model colled amhariad ddisgwyliedig ar gyfer yr offerynnau ariannol a ddelir. O dan yr FReM, mae balansau ag adrannau creiddiol y llywodraeth ganolog, Cronfeydd Trysorlys y Llywodraeth (gan gynnwys Cronfa'r Benthyciadau Gwladol) wedi'u heithrio rhag cydnabod amhariadau.

Y prif offeryn ariannol yw'r benthyciadau o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Nid oes lwfans colled ar gyfer y benthyciadau hyn gan na fydd benthyciadau NLF yn cael eu gwneud oni bai ei bod yn rhesymol disgwyl y byddant yn cael eu trin a'u had-dalu ar y dyddiadau y maent yn ddyledus gan fod y gyfraith yn nodi nad oes gan Gronfa'r Benthyciadau Gwladol hawl i wneud colled (Adran 5 (3) Deddf Benthyciadau Gwladol 1968).

Bydd Swyddfa Cymru, gan weithredu fel yr Adran sy'n Noddi, yn darparu llythyr gwarantu wedi'i lofnodi gan ei Hysgrifennydd Parhaol, i Gyfrifydd y Trysorlys yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi, gan sefyll y tu ôl i holl fenthyciadau Cronfa'r Benthyciadau Gwladol a wneir i Lywodraeth Cymru a chadarnhau y bydd y Gronfa'n cael ei had-dalu'n llawn gan Swyddfa Cymru os bydd methiant ar ran Llywodraeth Cymru. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y bydd Swyddfa Cymru yn ad-dalu benthyciadau Cronfa'r Benthyciadau Gwladol o'i Hamcangyfrif.

## 1.15 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gedwir ar alwad gyda banciau, buddsoddiadau tymor byr eraill sy'n hylifol iawn, gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

## 1.16 Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu sylweddol

Mae'r Cyfrifon yn adlewyrchu amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â'r dyfodol. Yn ôl y diffiniad, nid yw'r amcangyfrifon yn debygol o fod yr un fath â'r canlyniadau gwirioneddol. Mae'r amcangyfrifon yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac fe'u seilir ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad perthnasol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu trafod isod.

### *Ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar (Tir ac Adeiladau)*

Cafodd yr ymarfer prisio ei chynnal gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) gyda dyddiad prisio o 31 Mawrth 2020. Wrth gymhwyso Safonau Byd-eang Prisio 2020 ('Llyfr Coch') Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), mae'r VOA wedi datgan 'ansicrwydd prisio materol' yn yr adroddiad prisio ar gyfer Tir ac Adeiladau. Mae hyn yn seiliedig ar ansicrwydd y farchnad yn sgil COVID-19. Defnyddiwyd y prisiadau yn yr adroddiad

fel sail ar gyfer mesur asedau eiddo yn y datganiadau ariannol hyn. Ar ôl datgan yr ansicrwydd prisio materol hwn, mae'r VOA wedi parhau i ddefnyddio barn broffesiynol o ran darparu'r prisiad, a hon yw'r wybodaeth orau sydd ar gael i Swyddfa Cymru.

### *Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau ac Arwystlon*

Mae'r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau ac arwystlon yr adroddwyd amdanynt yn nodyn 11 yn adlewyrchu barn am y tebygolrwydd y bydd trosglwyddo buddion economaidd yn y dyfodol yn codi yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol. Os tybir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu a lle bydd modd mesur yr effaith gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Os bernir ei bod yn bosibl y bydd rhwymedigaethau posibl yn crisialu, datgelir rhwymedigaeth wrth gefn.

### *Cyfrifyddu prydlesi*

Mae gofyn penderfynu yn y lle cyntaf wrth gategoreiddio prydlesi ai prydlesi gweithredu ynteu brydlesi cyllid ydynt. Lle bydd prydles yn cael ei chodi ar gyfuniad o dir ac adeiladau, gellir cyfalafu elfen yr adeilad a'r tir fel prydlesi cyllid ar wahân os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer prydles gyllid. Os na fydd taliadau'r brydles dan y contract wedi'u rhannu rhwng tir ac adeiladau yng nghontract y brydles, gwneir y rhaniad ar sail gwerthoedd y tir a'r adeiladau ar y farchnad pan fydd y brydles yn cychwyn.

## 1.17 Rhoi safonau cyfrifyddu newydd nad ydynt yn weithredol eto ar waith cyn bo hir

Gallai'r safonau, dehongliadau a diwygiadau newydd a ganlyn, sydd wedi cael eu mabwysiadu gan yr UE ond nad ydynt yn weithredol eto, gael effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol:-

Mae IFRS 16 – Leases yn disodli IAS 17 Leases a deongliadau cysylltiedig a bydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2019. Mae'r safon newydd yn darparu model cyfrifyddu un prydlesai, gan ei gwneud yn ofynnol i brydleseion gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai fod cyfnod y brydles yn 12 mis neu lai neu fod gan yr ased sylfaenol werth isel. Mae prydleseion yn dal i gategoreiddio prydlesi fel prydlesi gweithredu neu brydlesi cyllid, ac nid yw ymagwedd IFRS 16 at gyfrifyddu prydleswyr yn wahanol iawn yn y bôn i'w ragflaenwr IAS 17. Bydd y safon newydd yn cael ei chymhwyso yn y llywodraeth ganolog o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Mae'r Swyddfa'n disgwyl y bydd IFRS 16 yn cael effaith berthnasol ar gyfrifon yn y dyfodol wrth i ni ddod â'r brydles weithredu gyfredol i'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Nid yw'n bosibl mesur yr effaith hon eto.

Mae IFRS 17 – Insurance contracts yn disodli IFRS 4 sydd â'r un enw. Bydd y safon newydd yn defnyddio gofynion mwy safonol a thrwyadl ar gyfrifyddu ar gyfer contractau yswiriant. Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach o ran nodi, categoreiddio a mesur asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Ni fwriedir gweithredu IFRS 17 tan 2022, ac mae Trysorlys EM eisoes yn ystyried ei rhoi ar waith yn y sector cyhoeddus. Rhagwelir y bydd IFRS 17 yn cael ei rhoi ar waith yn y Llywodraeth ganolog o 2022-23 ymlaen.

Ni fydd IFRS 17 yn cael unrhyw effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol.

## 2. Gwariant

| | 31 Mawrth 2020 £000 | 31 Mawrth 2019 £000 |
|---|---|---|
| Costau Staff: | | |
| Cyflogau Wythnosol a Misol | 2,518 | 2,455 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 195 | 218 |
| Costau Pensiwn Eraill | 464 | 399 |
| | | |
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau | 519 | 453 |
| Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | 32 | 55 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: tir ac adeiladau | 186 | 183 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: arall (offer, peiriannau, cerbydau ac ati) | 80 | 61 |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu (trefniadau consesiwn nad ydynt yn wasanaethau) | 64 | 95 |
| Gwasanaethau eraill sy'n cael eu contractio allan | 17 | 14 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 43 | 83 |
| Teithio a chynhaliaeth | 208 | 252 |
| Hyfforddiant a chostau eraill sy'n gysylltiedig â staff | 41 | 28 |
| Ffioedd a thaliadau banc | 3 | 3 |
| Gwariant arall ar weinyddu | 12 | 37 |
| Digwyddiadau a Chynadleddau | 31 | 30 |
| Dyrannu gorbenion | 154 | 154 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Taliadau a threuliau archwilwyr | 31 | 30 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn | 243 | 7 |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddu** | **4,841** | **4,557** |
| | | |
| *Costau Rhaglen – Swyddfa Cymru* | | |
| Treuliau Arglwydd Raglawiaid | 38 | 42 |
| Payover i Gronfa Gyfunol Cymru | 15,337,546 | 14,582,040 |
| | | |
| *Eitemau nad ydynt yn arian parod* | | |
| Dibrisiant | 157 | 141 |
| **Cyfanswm Costau Rhaglen** | **15,337,741** | **14,582,223** |
| | | |
| **Gwariant Gweithredu Net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | **15,342,582** | **14,586,780** |

## 3. Incwm

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Incwm rhent | 112 | 100 |
| **Cyfanswm Incwm** | **112** | **100** |

Nid oes incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

## 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir Rhydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Taliadau ar Gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2019-20** | | | | | | | |
| **Cost neu brisiant** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 3,343 | 2,137 | 35 | 209 | 298 | 18 | 6,040 |
| Ychwanegiadau | – | 45 | – | – | – | – | 45 |
| Ailbrisio | (92) | (103) | – | 5 | (2) | – | (192) |
| Ail-gategoreiddio | – | – | – | 18 | – | (18) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **3,251** | **2,079** | **35** | **232** | **296** | **–** | **5,893** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | – | – | (3) | (185) | (204) | – | (392) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | – | (113) | (5) | (15) | (24) | – | (157) |
| Ailbrisio | – | 113 | – | (4) | 2 | – | 111 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **–** | **–** | **(8)** | **(204)** | **(226)** | **–** | **(438)** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2020** | **3,251** | **2,079** | **27** | **28** | **70** | **–** | **5,455** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 1 Ebrill 2019** | **3,343** | **2,137** | **32** | **24** | **94** | **18** | **5,648** |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | **3,251** | **2,079** | **27** | **28** | **70** | **–** | **5,455** |

Mae prisiadau proffesiynol o dir ac adeiladau, sydd i gyd yn ymwneud â Thŷ Gwydyr, yn cael eu cynnal gan syrfewyr siartiedig cymwys o Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) sy'n annibynnol ar Swyddfa Cymru yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), sy'n cael ei alw'n 'Llyfr Coch'. Cynhaliwyd y prisiant diwethaf ar yr 31ain o Fawrth 2020* gyda phrisiadau bwrdd gwaith proffesiynol yn cael eu cynnal rhwng un prisiad proffesiynol a'r nesaf.

Bydd pob ased ar wahân i dir ac adeiladau ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu hailbrisio ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio mynegai Prisiau'r Cynhyrchwyr a baratoir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

* Ar 31 Mawrth 2020, mae'r VOA wedi datgan 'ansicrwydd prisio materol' yn yr adroddiad prisio ar gyfer Tir ac Adeiladau. Mae hyn yn seiliedig ar ansicrwydd y farchnad yn sgil COVID-19. Defnyddiwyd y prisiadau yn yr adroddiad fel sail ar gyfer mesur asedau eiddo yn y datganiadau ariannol hyn. Ar ôl datgan yr ansicrwydd prisio materol hwn, mae'r VOA wedi parhau i ddefnyddio barn broffesiynol o ran darparu'r prisiad, a hon yw'r wybodaeth orau sydd ar gael i Swyddfa Cymru.

## 4.a Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir Rhydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Chyfarpar | Offer a Chyfarpar | Taliadau ar Gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2018-19** | | | | | | | |
| **Cost neu brisiant** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 3,264 | 2,086 | – | 207 | 298 | 35 | 5,890 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | – | 18 | 18 |
| Ailbrisio | 79 | 51 | – | 2 | – | – | 132 |
| Ailgategoreiddio | – | – | 35 | – | – | (35) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **3,343** | **2,137** | **35** | **209** | **298** | **18** | **6,040** |
| | | | | | | | |
| Dibrisiant | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | – | – | – | (176) | (179) | – | (355) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | – | (104) | (3) | (9) | (25) | – | (141) |
| Ailbrisio | – | 104 | | – | – | – | 104 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **–** | **–** | **(3)** | **(185)** | **(204)** | **–** | **(392)** |
| | | | | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2019** | **3,343** | **2,137** | **32** | **24** | **94** | **18** | **5,648** |
| | | | | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 1 Ebrill 2018** | **3,264** | **2,086** | **–** | **31** | **119** | **35** | **5,535** |
| | | | | | | | |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | **3,343** | **2,137** | **–** | **24** | **94** | **18** | **5,616** |

Mae syrfewyr siartredig cymwys o Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), yn cynnal prisiadau proffesiynol o dir ac eiddo, i gyd yn ymwneud â Thŷ Gwydyr, gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), sef y 'Llyfr Coch'. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar yr 31 o Fawrth 2015. Rhwng prisiadau proffesiynol bydd yr holl eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu prisio gan ddefnyddio mynegeion.

## 5. Cyfalaf ac Ymrwymiadau eraill

### 5.1 Ymrwymiadau dan Brydlesi Gweithredu

Rhoddir ymrwymiadau dan brydlesi gweithredu i dalu rhent yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod.

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:** | | |
| **Adeiladau:** | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 90 | 90 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 91 | 181 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | | |
| **Cyfanswm** | **181** | **271** |

Mae'r brydles adeiladau'n berthnasol i swyddfeydd dan brydles i Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd.

## 6. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 31 March 2020 | 31 March 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | 61 | 32 |
| Newid net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian | (24) | 29 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **37** | **61** |

Roedd pob balans yn cael ei ddal yng Ngwasanaeth Bancio’r Llywodraeth.

## 7. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy’r broses Amcangyfrifon, nid yw offerynnau ariannol yn chwarae cymaint o rôl wrth greu a rheoli risg ag y byddent mewn corff tebyg o ran maint heb fod yn y sector cyhoeddus. Mae’r rhan fwyaf o’r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac o ganlyniad nid yw’r Adran fel arfer yn agored i lawer o risgiau credyd, hylifedd neu risgiau’r farchnad.

## 8. Buddsoddiadau a Benthyciadau mewn Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill

| | Benthyciadau a ariennir drwy Gronfa'r Benthyciadau Gwladoll |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost neu brisiad** | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | 11,092 |
| *Ychwanegiadau - Benthyciad Cyfalaf Newydd gan Gronfa'r Benthyciadau Gwladol i Lywodraeth Cymru | 65,000 |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (1,228) |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | 74,864 |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (2,362) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | 72,502 |

*Dan Adran 122a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £1 biliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Ym mis Mawrth 2019, gofynnodd Llywodraeth Cymru am fenthyg £65 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf o’r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Mae Adran 122 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y gall y Trysorlys roi i’r Ysgrifennydd Gwladol o Gronfa’r Benthyciadau Gwladol y cyfryw symiau y mae’r Ysgrifennydd Gwladol eu hangen ar gyfer gwneud benthyciadau dan Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 9. Symiau Masnach Derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 126 | 118 |
| Symiau TAW derbyniadwy | 37 | 17 |
| Adneuon a blaendaliadau | 26 | 4 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 19 | 129 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 41 | 5 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - llog derbyniadwy | 272 | 151 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - cyfalaf | 2,362 | 1,228 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | **2,883** | **1,652** |

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | |
| Adneuon a blaendaliadau | – | 4 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | **–** | **4** |

## 10. Symiau Masnach Taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 108 | 94 |
| Symiau masnach taladwy | 11 | 117 |
| Symiau taladwy eraill | 90 | 194 |
| Croniadau | 729 | 514 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – cyfalaf | 2,362 | 1,228 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – llog yn daladwy | 272 | 151 |
| Symiau a ddarparwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer y cyflenwad ond nad oeddent wedi'u gwario erbyn diwedd y flwyddyn | 37 | 61 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | **3,609** | **2,359** |

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | |
| Benthyciadau NLF | 72,502 | 74,864 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | **72,502** | **74,864** |

## 11. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau ac Arwystlon

| | Costau Dadfeilio Lesddaliad | Costau Les Beichus | Cyfanswml |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2018 | 46 | – | 46 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 7 | – | 7 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | **53** | **–** | **53** |
| | | | |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 8 | 235 | 243 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **61** | **235** | **296** |

Y costau dadfeiliad prydlesi yw'r symiau a allai fod yn daladwy yn y dyfodol wrth roi'r gorau i'r brydles ar gyfer Swyddfa Caerdydd.

Mae'r ddarpariaeth les feichus yn perthyn i gostau posibl yn deillio o ildio prydles Swyddfa Caerdydd yn gynnar, o ganlyniad i'r bwriad i symud yr Adrannau i'r Ganolfan newydd yng Nghaerdydd.

### 11.1 Dadansoddiad o amseru disgwyliedig llifau wedi'u disgowntio

| | Dadfeiliad Prydlesi 2019-20 | Costau Les Beichus 2019-20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | – | – |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 61 | 235 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | – | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **61** | **235** |

| | Dadfeiliad Prydlesi 2018-19 |
|---|---|
| | £000 |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | – |
| Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 53 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **53** |

## 12. Trafodion partïon cysylltiedig

***Adrannau Cysylltiedig a chyrff eraill y Llywodraeth ganolog***

Mae Swyddfa Cymru yn ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig y mae Swyddfa Cymru wedi cael trafodion perthnasol amrywiol ag ef yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, mae Swyddfa Cymru wedi cael nifer o drafodion sylweddol gydag adrannau eraill y llywodraeth, yn bennaf Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyrff llywodraeth ganolog eraill.

Nid oes yr un gweinidog, aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na pharti cysylltiedig arall wedi gwneud unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl iawndaliadau ar gyfer uwch reolwyr yn cael eu datgelu'n llawn yn yr Adroddiad Tâl.

## 13. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 '*Events After the reporting Period*', ystyrir digwyddiadau ar ôl y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad pan awdurdodir y Cyfrifon i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Dehonglir bod hyn ar yr un dyddiad ag yr ardystir y Cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae pandemig Covid-19 wedi tarfu ar y wlad yn gyffredinol, ond nid yw wedi cael effaith andwyol uniongyrchol ar Swyddfa Cymru.

# Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus

TABL 1

## Gwario gan Swyddfa Cymru & Llywodraeth Cymru 2014-15 to 2020-21

| | 2014-15 Alldro £000 | 2015-16 Alldro £000 | 2016-17 Alldro £000 | 2017-18 Alldro £000 | 2018-19 Alldro £000 | 2019-20 Cynlluniau £000 | 2019-20 Alldro (7) £000 | 2020-21 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Swyddfa Cymru | | | | | | | | |
| Gwariant ar adnoddau o fewn Costau Gweinyddol | 4,280 | 3,937 | 4,350 | 4,627 | 4,450 | 4,592 | 4,486 | 4,964 |
| Gwariant ar adnoddau eraill | 43 | 54 | 163 | 178 | 183 | 490 | 195 | 236 |
| Adnoddau Swyddfa Cymru [2] | 4,323 | 3,991 | 4,513 | 4,805 | 4,633 | 5,082 | 4,681 | 5,200 |
| **Cyfalaf Swyddfa Cymru** | 117 | 45 | 0 | 73 | 18 | 50 | 45 | 30 |
| TGA Adnoddau + Cyfalaf Swyddfa Cymru [2] | 4,440 | 4,036 | 4,513 | 4,878 | 4,651 | 5,132 | 4,726 | 5,230 |
| *llai dibrisant a lleihad mewn gwerth* | *-131* | *-100* | *-109* | *-126* | *-141* | *-170* | *-157* | *-175* |
| TGA Swyddfa Cymru [3] | 4,309 | 3,936 | 4,404 | 4,752 | 4,510 | 4,962 | 4,569 | 5,055 |

## Gwariant Llywodraeth Cymru (Y Floc Cymru) [6]

| | 2014-15 Alldro £000 | 2015-16 Alldro £000 | 2016-17 Alldro £000 | 2017-18 Alldro £000 | 2018-19 Alldro £000 | 2019-20 Cynlluniau £000 | 2019-20 Alldro (7) £000 | 2020-21 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnodd Llywodraeth Cymru (cyn Addasisd Grantiau Bloc) | 14,203,147 | 13,328,943 | 13,325,208 | 14,001,757 | 14,283,175 | 15,436,528 | 15,217,128 | 17,817,959 |
| *llai: Addasiad Grant Bloc* | *0* | *0* | *0* | *0* | *-272,279* | *-2,319,055* | *-2,358,652* | *-2,441,893* |
| Adnodd | 14,203,147 | 13,328,943 | 13,325,208 | 14,001,757 | 14,010,896 | 13,117,473 | 12,858,476 | 15,376,066 |
| Cyfalaf | 1,500,156 | 1,542,658 | 1,449,083 | 1,821,285 | 2,036,807 | 2,226,309 | 2,132,006 | 2,429,835 |
| **Cyfanswm Adnoddau + Cyfalaf** | **15,703,303** | **14,871,601** | **14,774,291** | **15,823,042** | **16,047,703** | **15,343,782** | **14,990,482** | **17,805,901** |
| *llai dibrisant a lleihad mewn gwerth* | *-448,801* | *-513,710* | *-253,397* | *-708,262* | *-703,761* | *-975,129* | *-811,094* | *-688,713* |
| **TGA Llwordraeth Cymru [3][5]** | **15,254,502** | **14,357,891** | **14,520,894** | **15,114,780** | **15,343,942** | **14,368,653** | **14,179,388** | **17,117,188** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Gan gynnwys dibrisiant a namau.
(3) Adnoddau + cyfalaf - dibrisiant ad mewn gwerth. (cynnwys nam Benthciadau I Fyfyrwyr).
(4) Yn ôl confensiwn mynegir cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol fel dibrisiant a namau llai adnoddau a chyfalaf. Felly ni fydd y niferoedd adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn gyfystyr â Therfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yn dibrisiant a namau.
(5) Mae ffigurau TGA am flynyddoedd alldro wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau mewn cyllidebu a gafwyd wedyn.
(6) O Arolwg Gwariant 2015, nid yw gwariant Swyddfa Cymru bellach yn rhan o Bloc Cymru.
(7) Alldro Swyddfa Cymru y data yn cynrychioli alldro terfynol a bydd yn cyd-fynd a'r cyfrifon cyhoeddedig mewn man arall yn y ddogfen hon. Mae data Llwodraeth Cymru yn dangos canlyniad dros wrth i Lywodraeth Cymru i gwbihau eu cyfrifon eto.

## TABL 2
## Grant arian parod a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2018-19: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Amcangyfrif o'r Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TG[2] | 15,827,012 | 16,519,564 | 16,047,703 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 741,995 | 801,657 | 620,500 |
| Gwariant a Ariennir gan Drethi Cymru | 275,880 | 285,880 | 272,279 |
| Gwariant a Ariennir gan Fenthyca Cyfalaf | 125,000 | 125,000 | 65,000 |
| Trethi Annomestig | 1,050,000 | 1,050,000 | 1,050,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **18,019,887** | **18,782,101** | **18,055,482** |
| **Llai:** | | | |
| *Gwariant heb ei bleidleisio:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Eraill heb ei Votota | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| *Trafodion Deddf Cymru 2014:* | | | |
| Incwm o drethi Cymru: | | | |
| Treth Trafodiadau Tir | 250,000 | 239,000 | 227,846 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 26,000 | 47,000 | 44,433 |
| Ad-dalu egwyddor benthyciadau | -120 | -120 | -120 |
| Benthyca Cyfalaf | 125,000 | 125,000 | 65,000 |
| *Di-Arian:* | | | |
| Heb Arian Parod o Adnoddau | 664,279 | 904,279 | 703,761 |
| AME Heb fod yn arian parod | 53,757 | 102,126 | 92,465 |
| **CYFANSWM NI WEDI'I VOTED TME** | **1,213,794** | **1,512,163** | **1,228,263** |
| **CYFANSWM TME VOTED** | **16,806,093** | **17,269,938** | **16,827,219** |
| **Derbynebau wedi'u pleidleisio** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,214,227 | 1,234,860 | 1,234,860 |
| Derbyniadau NDR | 1,037,743 | 1,038,259 | 1,000,982 |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 0 | 50,000 | -148,191 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 | 0 | 116,538 |
| Trethi datganoledig-amser i gasglu derbynebau ym mlwyddyn 1 | 0 | 11,100 | 22,279 |
| Grant arian sy'n daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru | 0 | 0 | 37 |
| **Grant Arian sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru[3]** | **14,554,123** | **15,057,919** | **14,582,040** |

Nodiadau
(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) DEL adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.
(3) Dedd Llwodraeth Cymru 2006, Adran 118 (2).
(4) Mae'r holl eitemau sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at wariant a wneir gan / incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

## TABL 3
## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2019-20: Darpariaeth ac Amcangyfrif o'r Alldro

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Amcangyfrif o'r Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant a ddynodwyd yn TGA**[2] | 14,709,623 | 15,343,782 | 14,990,482 |
| **Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol** | 869,119 | 1,216,397 | 900,956 |
| **Gwariant a Ariennir gan Drethi Cymru** | 2,358,000 | 2,356,819 | 2,358,652 |
| **Gwariant a Ariennir gan Fenthyca Cyfala** | 125,000 | 0 | 0 |
| **Trethi Annomestig** | 1,061,000 | 1,061,000 | 1,061,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **19,122,742** | **19,977,998** | **19,311,090** |
| **Llai:** | | | |
| *Gwariant heb ei bleidleisio:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Eraill heb ei Votota | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| *Trafodion Deddf Cymru 2014:* | | | |
| Incwm o drethi Cymreig: | | | |
| Treth Incwm | 2,059,000 | 2,059,000 | 2,059,352 |
| Treth Trafodiad Tir | 256,000 | 259,819 | 256,400 |
| Treth Gwaredu Tirlenwi | 43,000 | 38,000 | 42,900 |
| Ad-dalu egwyddor benthyciadau | -2,273 | -1,228 | -1,228 |
| Benthyca Cyfalaf | 125,000 | 0 | 0 |
| Heb Arian Parod o Adnoddau | 690,064 | 975,129 | 811,094 |
| AME Heb fod yn arian parod | 69,723 | 382,279 | 275,442 |
| **CYFANSWM NI WEDI'I VOTED TME** | **3,335,392** | **3,807,877** | **3,538,838** |
| **CYFANSWM TME VOTED** | **15,787,350** | **16,170,121** | **15,772,252** |
| **Derbynebau wedi'u pleidleisio** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,275,112 | 1,290,129 | 1,290,129 |
| Derbyniadau NDR | 1,068,904 | 1,104,668 | 1,104,668 |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 0 | 73,276 | -98,909 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 | 0 | 0 |
| **Grant Arian sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | **13,443,334** | **13,848,600** | **13,278,546** |
| *Cyfradd Cymru o'r Dreth Incwm* | *2,059,000* | *2,059,000* | *2,059,000* |
| | *15,502,334* | *15,907,600* | *15,337,546* |

Nodiadau
(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) DEL adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.
(3) Mae pob eitem sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at y gwariant a gafwyd gan / incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

## TABL 4
## Cyfrifo'r grant arian parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru 2020-21

| | 2020-21<br>£000 |
|---|---|
| Gwariant wedi'i Ddosbarthu fel TGA (Grant Bloc)[2] | 17,805,901 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 1,021,289 |
| Gwariant a Ariennir gan Drethi Cymru | 2,455,467 |
| Gwariant Cyllidwyd gan Benthyca Cyfalaf | 125,000 |
| Gwariant wedi'i Ariannu gan Ardrethi Annomestig | 1,136,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **22,543,657** |
| *Llai:* | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | |
| Benthyca â Chymorth gan Awdurdodau Lleol Cymru | 88,800 |
| Costau casglu ar gyfer Cyfraniadau YG a Threthi Annomestig | 6,078 |
| *Trafodion Deddf Cymru 2016:* | |
| Incwm o drethi Cymreig: | |
| Treth Incwm | 2,169,668 |
| Treth Trafodiad Tir | 254,008 |
| Treth Gwaredu Tirlenwi | 34,153 |
| Ad-dalu prif fenthyciadau | -2,362 |
| Benthyca Cyfalaf | 125,000 |
| Heb Arian Parod o Adnoddau | 688,713 |
| AME Heb fod yn arian parod | 333,950 |
| ***Is-Gyfanswm*** | ***3,698,008*** |
| **GWARIANT CYFLENWAD CYFANSWM** | **18,845,649** |
| **Llai o dderbynebau** | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,327,527 |
| Derbyniadau NDR | 1,087,533 |
| **Grant Arian yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | **16,430,589** |
| *Cyfradd Cymru o'r Dreth Incwm* | *2,169,668* |
| ***Cyfanswm y gofyniad arian parod gan gynnwys cyfradd Cymru o'r dreth incwm*** | ***18,600,257*** |

Nodiadau
(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu
(2) DEL adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.
(3) Mae pob eitem sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at y gwariant a gafwyd gan / incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

ISBN 978-1-5286-2020-8
CCS0420480408